4 Chwefror 2016

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi’r adroddiad hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Alastair McQuaid, Sophie Knott, Verity Winn, Rachel Harries, Paul Cunningham, Emma Giles, Bethan Davies, Richard Smith, Stephen Frank ac Avril Watkins o dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

Pob llun drwy garedigrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo’r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i’r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae’n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


Os ydych angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru

# Y prif ffeithiau am CNC

Dyddiad creu
1 Ebrill 2013

Prif gyrff etifeddiaeth

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru



Rheoli
**7%**
o arwynebedd tir Cymru

Nifer y staff fel yr oedd yn Hydref 2015
**2,017**


Cyllideb flynyddol ar gyfer 2015-16
**£187m**





Cyfanswm gwirioneddol y buddiannau yn 2014-15
**£7.5m**

Cyfanswm y buddiannau a ragwelir yn 2018-19
**£74.3m**



Cyfanswm y buddiannau a dargedir yn 2022-23
**£158m**

# Cynnwys


Crynodeb 7

Argymhellion 12

1 Mae CNC wedi mabwysiadu dull cadarn a threfnus i ymdopi â'r heriau mawr a oedd yn codi yn sgil ei greu; gan sicrhau dilyniant o ran cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, a gyda phwyslais clir ar gyflawni'r buddiannau a fwriadwyd 15

Roedd llwyddiant creu CNC yn cynnwys heriau sylweddol 16

Ers ei greu, mae CNC wedi cynnal dilyniant busnes ac mae hefyd wedi delio'n effeithiol â rhai digwyddiadau difrifol 18

Mae CNC wedi mabwysiadu dull cadarn, trefnus a phragmataidd i symud o'r trefniadau blaenorol i fod yn un corff 26

Mae CNC wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni arbedion ariannol a chyflawni buddiannau eraill a fwriadwyd ar adeg ei greu 36

2 Mae CNC wedi dysgu yn sgil y cynnydd a wnaethpwyd a'r heriau a wynebwyd ac mae'n awr yn bwrw ymlaen â rhaglen newid fwy uchelgeisiol a chynhwysfawr, sydd ei hangen i drawsnewid ei hun ar gyfer y dyfodol ac i ddelio â newidiadau deddfwriaethol a phwysau ar adnoddau 42

Er bod rhaglen pontio CNC yn eang, roedd cyfyngiadau a therfynau y mae CNC yn awr wedi rhoi sylw iddynt yn ei raglen drawsnewid 43

Mae CNC yn cymryd camau i roi sylw i wendidau a nodwyd yn y ffordd mae'n rheoli risgiau, caffael a threfniadau grantiau 50

Mae CNC wedi mabwysiadu ymagwedd ragweithiol i ddelio â newidiadau deddfwriaethol a'r posibilrwydd o gyfrifoldebau statudol newydd 54

Mae CNC yn cydnabod bod rhai risgiau a heriau mewnol ac allanol sylweddol y bydd angen iddo roi sylw iddynt er mwyn cynnal momentwm y cynnydd tag at drawsnewid, tra'n parhau i gyflawni arbedion 56

Atodiadau 63

Atodiad 1 – Cwmpas a dulliau'r Archwiliad 64

Atodiad 2 – Cyfrifoldebau dangosol CNC a'r amserlen yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru), 2016 hyd 2020 66

# Adroddiad cryno



Ffigur 1 – Y sefydliadau etifeddiaeth a'u cyfrifoldebau

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

Roedd ei gyfrifoldebau'n cynnwys:

Swyddogaethau cynghori a gweithredol ar gyfer cadwraeth natur a rheoli'r amgylchedd; hysbysu safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig; rheoli Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol; ymgynghorai statudol, er enghraifft ar gyfer asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd a grantiau amgylcheddol.

**Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**

Elfen Gymreig Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru a Lloegr), corff cyhoeddus anadrannol

Roedd ei gyfrifoldebau'n cynnwys:

Rheoleiddio amgylcheddol yn achos allyriadau a gollyngiadau i'r aer, y tir a dŵr gan gynnwys trwyddedau ar gyfer allyriadau diwydiannol, cyfleusterau rheoli gwastraff a rheoli pysgodfeydd, a rheoli perygl o lifogydd.

**Comisiwn Coedwigaeth Cymru**

Elfen Gymreig y Comisiwn Coedwigaeth, adran anweinidogol o'r llywodraeth, gyda chyfrifoldeb datganoledig i Weinidogion Cymru

Roedd ei gyfrifoldebau'n cynnwys:

Rheoli a datblygu ystâd coedwigoedd cyhoeddus, creu coetiroedd newydd, rheoli cyflenwadau o bren, ac ymgysylltu â choetiroedd preifat.

**Swyddogaethau Llywodraeth Cymru**

Roedd ei chyfrifoldebau'n cynnwys:

Trwyddedau morol a bywyd gwyllt ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir gan y DU ac Ewrop

O 1 Ebrill 2013

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

O 1 Ebrill 2015

**Byrddau Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg, Rhannau Isaf Afon Gwy, a Phowys[1]**

Awdurdodau cyhoeddus lleol sy'n atebol i Lywodraeth Cymru ac i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n ymdrin â meysydd penodol o anghenion draenio arbennig yng Nghymru.

Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys: Rheolaeth o ddydd i ddydd am y system ddraenio, cynlluniau rheoli lefelau dŵr, gwneud gwaith i leihau'r perygl o lifogydd, cynghori ar geisiadau cynllunio, a chadwraeth ar safleoedd dynodedig fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Noder:

1 Roedd Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg yn gweithredu'n gyfan gwbl yng Nghymru ac roedd Byrddau Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Phowys yn gweithredu ar naill ochr y ffin rhwng Cymru a Lloegr, gyda swyddogaethau sydd mewn rhannau o Gymru yn cael eu trosglwyddo i ofal CNC.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, gan ddefnyddio gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru

1 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r mwyaf o bell o'r cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru[1]. Mae ganddo gyllideb flynyddol o £187 miliwn ar gyfer 2015-16 ac ym mis Hydref 2015 roedd yn cyflogi 1,941 o staff parhaol, 71 staff dros dro a phum prentis ledled Cymru. Crëwyd CNC gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2013, gan ddisodli tri chorff etifeddiaeth – Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru – yn ogystal ag ymgorffori rhai o swyddogaethau penodol Llywodraeth Cymru (Ffigur 1). Ar 1 Ebrill 2015, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru swyddogaethau'r tri Bwrdd Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru i ofal CNC.

2 Mae gan CNC ystod eang a chymhleth o rolau a chyfrifoldebau, sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, yr economi ac ansawdd bywyd (Ffigur 2). Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer CNC mewn llythyrau cylch gwaith blynyddol.

Ffigur 2 – Rolau a chyfrifoldebau CNC

| | |
|---|---|
| Cynghorydd | Prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru, a chynghorydd i ddiwydiant a'r cyhoedd yn gyffredinol a'r sector gwirfoddol, a chyfathrebwr ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol. |
| Rheoleiddiwr | Gwarchod pobl a'r amgylchedd gan gynnwys diwydiannau morol, coedwigoedd a gwastraff, ac erlyn y sawl sy'n torri'r rheoliadau y mae CNC yn gyfrifol amdanynt. |
| Dynodwr | Yn achos Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – ardaloedd o werth penodol am eu bywyd gwyllt neu eu daeareg, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, yn ogystal â dynodi Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. |
| Ymatebwr | I tua 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol y flwyddyn a hysbysir fel ymatebwr argyfwng Categori 1. |
| Ymgynghorai statudol | I tua 9,000 o geisiadau cynllunio'r flwyddyn. |
| Rheolwr/ Gweithredwr | Rheoli saith y cant o arwynebedd tir Cymru, gan gynnwys coetiroedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, amddiffynfeydd dŵr a llifogydd, a rhedeg canolfannau ymwelwyr, cyfleusterau hamdden a labordy. |
| Partner, Addysgwr a Galluogwr | Cydweithredwr allweddol â'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, rhoi cymorth grant, a helpu ystod eang o bobl i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd dysgu; gweithredu fel catalydd ar gyfer gwaith pobl eraill. |
| Casglwr tystiolaeth | Monitro'r amgylchedd, comisiynu a gwneud ymchwil, datblygu gwybodaeth, a gweithredu fel corff cofnodion cyhoeddus. |
| Cyflogwr | Dros 1,900 o staff [parhaol], yn ogystal ag ategu cyflogaeth pobl eraill drwy waith contract a chyfleoedd i wirfoddoli. |

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru 2014-15

1 Mae cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn gyrff cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd â rôl ym mhrosesau'r Llywodraeth ond nad ydynt yn rhan o adrannau'r Llywodraeth. Mae gan bob corff a noddir gytundeb fframwaith â Llywodraeth Cymru sy'n pennu rolau a chyfrifoldebau. Mae cyrff a noddir yn gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion Llywodraeth Cymru, ond mae Bwrdd y corff a noddir yn atebol i Weinidogion drwy'r adran sy'n eu noddi o fewn Llywodraeth Cymru. Mae cyrff eraill a noddir yn cynnwys, er enghraifft, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cyngor Gofal Cymru a Chwaraeon Cymru.

3 Roedd yr achos busnes dros sefydlu CNC wedi nodi nifer o fuddiannau yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt gael eu gwireddu drwy greu CNC oedd yn ymwneud â chanlyniadau gwell, darpariaeth well i Gymru a mwy o werth am arian. Roedd yr achos busnes yn nodi buddiannau mesuradwy yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i CNC eu cyflawni oedd werth cyfanswm o £158 miliwn yn ystod y 10 mlynedd hyd ddiwedd 2022-23[2]. Diwygiodd Llywodraeth Cymru a CNC yr achos busnes ym mis Gorffennaf 2013, gan amrywio proffil y buddiannau a ragwelwyd ar gyfer pob blwyddyn ond gan gadw'r rhagamcan cyffredinol dros y 10 mlynedd, sef £158 miliwn, yr un fath[3]. Roedd cyfanswm costau disgwyliedig creu CNC yn £66 miliwn yn yr achos busnes diwygiedig, gan roi arbediad net a ragwelir o £92 miliwn hyd 2022-23.

4 Roedd nifer o risgiau a heriau posibl ynghlwm wrth greu CNC ac roedd y rhain yn destun craffu manwl. Roedd rhai sefydliadau, yn enwedig yn y sector coedwigaeth, wedi herio'r penderfyniad gwreiddiol i ddisodli'r tri sefydliad, gan fynegi pryderon ynghylch dilyniant gan haeru y byddai llai o bwyslais ar eu maes diddordeb penodol hwy. Roedd yr achos busnes gwreiddiol dros greu CNC, a baratowyd gan Lywodraeth Cymru, yn nodi sawl risg strategol gan gynnwys:

a ymateb negyddol gan randdeiliaid;

b diffyg diben cyffredin;

c effaith andwyol ar staff a pherfformiad sefydliadol;

ch colli sgiliau sefydliadol; ac

d amharu ar drefniadau gweithio ar draws ffiniau.

5 Bu Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried rhai o'r materion hyn yn ei ymchwiliad yn 2012 i asesu a fyddai'r achos busnes a oedd yn sail i benderfyniad Llywodraeth Cymru i greu corff newydd yn gwireddu'r canlyniadau i'r amgylchedd naturiol yr oedd y Llywodraeth yn dymuno'u sicrhau[4]. Dywedodd y Pwyllgor na allai eto fod yn hyderus y byddai trefniadau ar waith i liniaru'r risgiau a'r pryderon a fynegwyd gerbron y Pwyllgor; ac argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau na fyddai dirywiad mewn perfformiad yn ystod y cyfnod pontio, ac y byddai arbenigedd masnachol y cyrff etifeddiaeth yn cael ei brif ffrydio i waith CNC. Mae diddordeb y Pwyllgor wedi parhau ers creu CNC, gan gynnwys ymchwiliad arall yn ymwneud â'r ystâd coedwigaeth gyhoeddus yng Nghymru ac ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o graffu blynyddol ar waith CNC.

2 Mae'r buddiannau hyn yn cynnwys arbedion mewn arian ac arbedion mesuradwy eraill sy'n deillio o fod yn un corff symlach, gan leihau dyblygu, symleiddio prosesau a sicrhau enillion o ran cynhyrchiant.
3 Roedd achos busnes gwreiddiol Tachwedd 2011 yn rhagweld cyfanswm o £158.4 miliwn mewn buddiannau. Roedd achos busnes diwygiedig Gorffennaf 2013 yn rhagweld cyfanswm o £158.0 miliwn mewn buddiannau.
4 **Adroddiad – Yr achos busnes dros un corff amgylcheddol,** Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2012.

6 O gofio’r risgiau cynhenid a oedd ynghlwm wrth greu CNC a lefel y newid sefydliadol cysylltiedig, ac oherwydd bod CNC yn sefydliad newydd sy’n defnyddio adnoddau cyhoeddus sylweddol i gyflawni swyddogaethau pwysig, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys archwiliad o ddatblygiad CNC yn ei raglen o archwiliadau gwerth am arian. Roedd ein hastudiaeth yn ystyried a oes gan CNC drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith eisoes neu a yw’n datblygu trefniadau o’r fath i’w helpu i gyflawni ei brif flaenoriaethau a chanlyniadau. Mae rhagor o fanylion am gwmpas ein gwaith a’r dulliau archwilio wedi eu cynnwys yn Atodiad 1. Er na fuom yn edrych ar gyflawniad gweithredol swyddogaethau CNC fel rhan o’n hastudiaeth, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wrthi’n paratoi adroddiad ar reoli peryglon llifogydd ac erydu arfordirol a fydd yn edrych ar rôl CNC yn y maes hwn. Hefyd, yn y dyfodol, rydym yn bwriadu gwneud gwaith archwilio dilynol ar ein hastudiaethau cyfredol; gwneud gwaith archwilio newydd gyda CNC yn gysylltiedig â dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) Act 2015; a pharhau i gynnwys gwaith yn ein rhaglen astudiaethau gwerth am arian sy’n berthnasol i swyddogaethau CNC.

7 Mae CNC wedi rheoli dwy flynedd gyntaf ei ddatblygiad fel cyfnod ‘pontio’, gyda’r nod o reoli parhad tra’n dwyn ynghyd swyddogaethau ei gyrff etifeddiaeth. Mae CNC yn awr wedi cyrraedd pwynt allweddol yn ei ddatblygiad wrth iddo symud o’r cyfnod ‘pontio’ i’r cyfnod ‘trawsnewid’ i adeiladu’r sefydliad ymhellach. Fel rhan o’r cyfnod nesaf hwn, mae CNC yn wynebu’r her o gynyddu cyfrifoldebau statudol o dan ddeddfwriaeth newydd gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru), y disgwylir a fydd yn dod i rym yng ngwanwyn 2016 (Atodiad 2).

8 **Ar y cyfan, rydym wedi dod i’r casgliad bod CNC wedi mabwysiadu dull cadarn a threfnus i sefydlu’r systemau a’r mesurau rheoli allweddol sydd wedi galluogi ei greu’n rhwydd. Mae’r trefniadau hyn wedi helpu i sicrhau dilyniant yn ei weithrediadau er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau a chanlyniadau allweddol. Rydym o’r farn bod gan CNC lwyfan cadarn a fydd yn ei alluogi i barhau i wireddu’r buddiannau a ragwelwyd yn yr achos busnes dros ei greu ac i fynd i’r afael â’r heriau o drawsnewid CNC ar gyfer y dyfodol, yng nghyd-destun y cyfyngiadau cyllido disgwyliedig, cyfrifoldebau statudol newydd a disgwyliadau rhanddeiliaid.**

9 Rydym wedi dod i’r casgliad hwn gan fod trefniadau pontio CNC wedi helpu dilyniant yn y busnes mewn cyfnod o newid sefydliadol parhaus pan oedd yn rhaid i CNC hefyd ddelio â digwyddiadau mawr fel llifogydd a chlefyd coed. Rydym o’r farn bod CNC wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni arbedion ariannol a chyflawni buddiannau eraill a oedd wedi’u bwriadu wrth ei greu. Mae CNC yn awr yn bwrw ymlaen â rhaglen trawsnewid fwy uchelgeisiol, gan ddefnyddio’r hyn a ddysgwyd trwy brofiad, ynghyd ag arferion da o gyfeiriadau eraill. Mae CNC wedi cydnabod cyfyngiadau a therfynau ei raglen newid gychwynnol ac mae wedi rhoi blaenoriaeth i bwyslais ar reoli pobl a chyfathrebu o fewn ei raglen trawsnewid.

10 Nodwn fod heriau mewnol ac allanol sylweddol yn wynebu CNC os yw am drawsnewid ei hun ar gyfer y dyfodol. Mae CNC wedi mabwysiadu dull rhagweithiol i ddelio â newidiadau deddfwriaethol a chyfrifoldebau statudol newydd. Fodd bynnag, mae ansicrwydd a fydd unrhyw gyllid ychwanegol ar gael ar gyfer y gwaith hwn. Ym mis Rhagfyr 2015, cafodd CNC gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch gostyngiad o wyth y cant mewn arian, ar sail gyfatebol, yn y cyllid cymorth grant refeniw ar gyfer 2016-17 oedd yn ymwneud â rheoli risg heb fod yn risg llifogydd, a gostyngiad o bump y cant mewn cymorth grant ar gyfer rheoli risg llifogydd[5]. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw cymorth grant cyfalaf ar y lefel gyfredol. Mae CNC wedi modelu ystod o senarios cyllidebol i gynllunio ar gyfer gostyngiadau posibl mewn cyllid o flwyddyn i flwyddyn; ond serch hynny nid ydym yn gwybod beth fydd lefel y cyllid y tu hwnt i 2016-17 ar hyn o bryd[6]. Mae pwysau cyllido, ynghyd â'r angen i gyflawni ymrwymiadau presennol i gynilo wrth ymgymryd â chyfrifoldeb newydd neu fwy yn golygu heriau sylweddol i CNC o ran cynllunio ariannol yn y tymor canolig a chyflenwi gwasanaethau. Er mwyn ymateb i'r pwysau lluosog hyn bydd yn rhaid i CNC fabwysiadu dull integredig ym mhob agwedd ar ei weithgareddau.

5 Bydd cyllid y mae CNC yn bwriadu ei ddwyn ymlaen o 2015-16 ac, yn sgil llifogydd ym mis Rhagfyr 2015 ac ym mis Ionawr 2016, arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a fydd yn dod yn rhannol o'i chyllidebau ei hun ac yn rhannol o gynnydd y grant bloc gan Lywodraeth y DU yn dilyn y cyhoeddiad y byddai Lloegr yn cael cymorth ychwanegol yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at leddfu effeithiau'r gostyngiad yn y cymorth grant ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd ar gyfer 2016-17.

6 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17 ym mis Rhagfyr 2015 ac ynddi ceir manylion cynhwysfawr am un flwyddyn ariannol. Yn nes ymlaen, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru wrth CNC faint o gyllideb a ddyrannwyd i'r sefydliad. Ni fydd rhagor o fanylion ynghylch y cyllidebau ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol ar gael tan y cyhoeddir y Rhaglen Lywodraethu newydd ar ôl etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016.

# Argymhellion

11 Wrth wneud ein hargymhellion rydym yn cydnabod bod CNC wedi bod yn destun nifer o adolygiadau mewnol ac allanol ychwanegol eisoes, sydd wedi arwain at nifer o argymhellion. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiad y Swyddfa Rheoliadau Gwell; ymchwiliadau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwy; hunan asesiad caffael, gydag asesiad ffurfiol Llywodraeth Cymru yn yr arfaeth yn 2016; ac adolygiadau archwilio mewnol fel y rhai ar reoli risg. Mae CNC felly'n rhoi cynlluniau gweithredu ar waith i roi sylw i'r argymhellion hyn ac felly, nid ydym wedi ailadrodd argymhellion a wnaethpwyd eisoes yn y meysydd hyn. Yn yr un modd, mae CNC eisoes wedi cymryd camau i ymateb i nifer o faterion eraill a godwyd yn ystod gwaith maes ein hastudiaeth.

## Argymhellion

**Cynnig eglurder ar drefniadau cyllido'r dyfodol a chytuno ar flaenoriaethau allweddol o gofio'r pwysau ar adnoddau**

A1 Mae CNC yn debygol o wynebu pwysau ariannol sylweddol a pharhaus yn ystod y blynyddoedd nesaf, o gofio'r toriadau mewn cyllid cymorth grant ar gyfer 2015-16 a 2016-17. Bu cynnydd hefyd yng nghyfrifoldebau statudol CNC, ond ni wyddys a fydd y rhain yn arwain at gyllid ychwanegol. Mae'n bosibl nad yw'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn deall yn iawn beth yw union rôl CNC a faint o gyfraniad y gellir disgwyl yn rhesymol i CNC ei wneud tuag at gyflawni targedau amgylcheddol, yn enwedig o ganlyniad i bwysau ar y gyllideb (paragraffau 2.30 i 2.33 a pharagraffau 2.38 i 2.41).

a. **Er mwyn galluogi CNC i gynllunio mewn ffordd fwy cadarn ar gyfer y tymor canolig, dylai Llywodraeth Cymru rhoi mwy o sicrwydd i CNC o ran trefniadau cyllido'r dyfodol, yn enwedig am y tair blynedd nesaf, gan gynnwys datgan a fydd cyllid ychwanegol ar gael o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfrifoldebau statudol; a**

b. **dylai CNC gynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gytuno ar y prif flaenoriaethau cyflawni ar gyfer CNC yn ystod y pum mlynedd nesaf, ac i reoli disgwyliadau o'i rôl a'i gyfraniad at ganlyniadau amgylcheddol, gan gofio y bydd yn cael llai o gyllid.**

**Cytuno ar ffyrdd o reoli a sicrhau buddiannau yn y dyfodol**

A2 Er ein bod yn meddwl bod gan CNC sylfaen gadarn ar gyfer parhau i sicrhau'r buddiannau a ragwelwyd yn yr achos busnes dros greu'r corff, mae'n mynd yn fwyfwy anodd, ac yn fwy o draul ar adnoddau, gwahanu'r buddiannau sy'n deillio'n benodol o greu CNC ac effaith y camau sy'n ofynnol i roi sylw i bwysau ychwanegol ar y gyllideb (paragraff 1.51). **Dylai CNC a Llywodraeth Cymru gytuno ar ffordd briodol o fonitro ac adrodd am y broses o sicrhau buddiannau yng nghyd-destun y camau ehangach mae CNC yn eu cymryd i ymateb i bwysau o ran y gyllideb.**

| Argymhellion |
| --- |
| **Datblygu'r swyddogaethau sy'n helpu i gyflawni'r strategaeth adeiladau**<br><br>A3 Mae CNC yn cyflawni strategaeth adeiladau, ac mae rhan ohoni'n cynnwys arfarnu opsiynau i ad-drefnu safleoedd adeiladau (paragraffau 1.39 i 1.44). Er bod CNC wedi gwneud cynnydd da, gallai CNC wella ei allu i gyflawni'r strategaeth drwy wneud y canlynol:<br><br>a **ystyried anghenion tymor hir CNC o ran adeiladau; a**<br><br>b **gwneud defnydd mwy effeithiol o ddata er mwyn cadw golwg ar y defnydd o safleoedd, gwariant a pherfformiad; ac i asesu effeithiolrwydd y rhaglen ad-drefnu.** |
| **Sicrhau bod y prosesau gwerthuso swyddi'n llwyddo i ddiwallu anghenion CNC yn y dyfodol**<br><br>A4 Mae CNC yn cynnal ymarferiad gwerthuso swyddi eang ar hyn o bryd. Mae'r amserlen gyfredol ar gyfer cwblhau'r gwaith erbyn Chwefror 2016 yn gryn her. Ar hyn o bryd, nid yw'n gwbl glir i ba raddau y mae disgrifiadau rôl a dyluniad swyddi'n cyd-fynd â'r trefniadau cyflenwi gwasanaethau, datblygu'r sefydliad, a hyfforddi a datblygu staff (paragraff 2.9). **Dylai CNC sicrhau bod y ffordd newydd o werthuso swyddi'n ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion busnes CNC yn y dyfodol.** |
| **Adolygu pa mor effeithiol ydyw am ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid**<br><br>A5 Ers ei greu, mae CNC wedi cynnal ystod o weithgareddau cyfathrebu mewnol ac allanol, gan gynnwys cyhoeddi strategaeth gyfathrebu tair blynedd ym mis Hydref 2014. Fodd bynnag, mae CNC yn cydnabod bod angen gwella pethau ac mae'n rhoi gweithgareddau ar waith i wella'r ffordd mae'n ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid (paragraffau 2.12 i 2.17). **Dylai CNC adolygu ei weithgareddau ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid i ddangos ei werth, pa mor effeithiol ydyw ac i ba raddau mae'n cadw at ei bwrpas fel sefydliad, ynghyd â gweithgareddau a chanlyniadau'r rhaglen trawsnewid.** |
| **Gwella'r defnydd a wneir o ddata sy'n gysylltiedig â'r gweithlu a threfniadau adrodd**<br><br>A6 Mae CNC wedi canfod problemau gyda chywirdeb data ar y gweithlu ond yn ddiweddar mae wedi datblygu data mewn meysydd fel swyddi gwag, ac mae'n awr yn creu ffordd o gasglu data'n electronig (paragraff 2.11). **Dylai CNC fonitro'r ffordd mae'n defnyddio data sy'n ymwneud â'r gweithlu i sicrhau ei fod yn ddata ystyrlon a chywir a'i fod yn cael ei adrodd yn briodol i'r tîm gweithredol a'r Bwrdd, ac i Bwyllgorau eraill pan fydd hynny'n berthnasol.** |

## Argymhellion

**Cynnal effeithiolrwydd Bwrdd CNC**

A7 Roedd Bwrdd gwreiddiol CNC a oedd yn weithredol ers ei sefydlu'n cael ei redeg yn dda, gyda thystiolaeth o herio a phrosesau penderfynu cadarn ac asesiadau blynyddol o effeithiolrwydd y Bwrdd. Er mis Tachwedd 2015, ochr yn ochr â newidiadau yn aelodaeth y Bwrdd, mae Llywodraeth Cymru yn cwtogi ar faint yr amser mewn dyddiau a roddir gan bob aelod o'r Bwrdd ac mae tymor penodiadau newydd yn fyrrach, sef dwy flynedd (paragraffau 2.46 i 2.48). **Dylai Llywodraeth Cymru a CNC sicrhau eu bod yn gosod canllawiau clir ar rôl ddisgwyliedig aelodau'r Bwrdd o ystyried y cwtogi ar amser, ac yn adolygu a yw hynny wedi cael unrhyw effaith ar effeithiolrwydd y Bwrdd.**

# Rhan 1

Mae CNC wedi mabwysiadu dull cadarn a threfnus i ymdopi â’r heriau mawr a oedd yn codi yn sgil ei greu; gan sicrhau dilyniant o ran cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, a gyda phwyslais clir ar gyflawni’r buddiannau a fwriadwyd



1.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar greu CNC a'r ffordd y mae wedi gweithredu yn ystod ei gyfnod pontio cychwynnol o ddwy flynedd, gan gynnwys ei gynnydd tuag at gyflawni'r buddiannau a fwriadwyd ers ei greu. Mae adran dau yn edrych ar y trefniadau y mae CNC yn eu rhoi ar waith i'w helpu yn ystod ei gyfnod trawsnewid, gan gynnwys meysydd sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod trawsnewid y mae CNC yn rhoi mwy o bwyslais arnynt, fel ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid.

## Roedd creu CNC yn llwyddiannus yn cynnwys heriau sylweddol

1.2 Roedd rhai heriau sylweddol yr oedd yn rhaid eu goresgyn wrth greu CNC gan fod gan y tri chorff etifeddiaeth drefniadau llywodraethu, systemau gweithredu a diwylliannau sefydliadol gwahanol, ac roedd y cyfnod trosglwyddo'n fyr:

a Roedd y tri chorff etifeddiaeth yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau amrywiol, fel adeiladu a rheoli amddiffynfeydd rhag llifogydd; rheoli'r ystâd o goedwigoedd sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru; a chynghori Llywodraeth Cymru ar natur cadwraeth a chyfoethogi (Ffigur 1). Roedd cwmpas y cyfrifoldebau'n cynnwys Cymru gyfan, ac roedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn unig yn gyfrifol am reoli oddeutu saith y cant o dir Cymru. Roedd y swyddogaethau'n cynnwys cyfrifoldebau statudol allweddol a amlinellwyd yn neddfwriaeth Cymru, y DU ac Ewrop.

b Roedd dau o'r sefydliadau etifeddiaeth yn gweithredu o fewn trefniadau llywodraethu cymhleth, oherwydd eu bod yn rhan o gyrff daearyddol ehangach:

- Roedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn rhan o'r Comisiwn Coedwigaeth ehangach a oedd yn cynnwys Cymru, Lloegr a'r Alban, ond gyda chyfrifoldeb wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru. O'i brif swyddfa yng Nghaeredin, roedd Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr yn gyfrifol am holl weithgarwch ariannol ac adnoddau dynol Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

- Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn rhan o Asiantaeth yr Amgylchedd, corff cyhoeddus anadrannol a oedd yn gweithio ar draws Cymru a Lloegr. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn darparu'r holl wasanaethau TGCh a llawer o'r arweiniad technegol strategol i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Roedd heriau ynghlwm wrth y trefniadau hyn o ran gwahanu swyddogaethau penodol oddi wrth eu rhiant sefydliad mwy gan nad oedd gan y cyrff Cymreig eu galluogrwydd a'u gallu lleol eu hunain mewn rhai meysydd. Roedd cyflawni'r buddiannau a nodwyd yn yr achos busnes dros greu CNC, a oedd yn werth £158 miliwn dros y 10 mlynedd hyd ddiwedd 2022-23, yn dibynnu'n rhannol ar wahanu dyletswyddau'n gyflym er mwyn diweddu'r ddibyniaeth ar wasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan y cyrff etifeddiaeth.

c Roedd diwylliant a ffyrdd o weithio pob sefydliad etifeddiaeth yn wahanol, ac roedd y rhain yn cael eu hamlygu gan broffesiynau a sgiliau amrywiol y staff.

ch Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd y Gweinidog yr Amgylchedd ar y pryd y byddai'r tri sefydliad etifeddiaeth yn cael eu disodli gan gorff newydd a fyddai'n weithredol o 1 Ebrill 2013. Sefydlwyd CNC yn gyfreithiol gan Lywodraeth Cymru ar 18 Gorffennaf 2012. Yna ym mis Awst 2012 a mis Hydref 2012, cyhoeddodd y Gweinidog enw Cadeirydd ac aelodau Bwrdd CNC, ac arweiniodd hynny at gyfnod cysgodi byr o bum mis ar gyfer yr aelodau newydd. Achoswyd pwysau amser ychwanegol gan fod 1 Ebrill 2013 yn ddyddiad 'lansiad caled', gyda'r cyrff etifeddiaeth yn ymgymryd â gweithrediadau tan y dyddiad hwn, gyda CNC yn gyfrifol am weithrediadau o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Os na fyddai CNC wedi llwyddo i gyflawni gweithrediadau o ddydd i ddydd y cyrff etifeddiaeth ar y dyddiad trosglwyddo, byddai'r effaith wedi bod yn fawr, yn enwedig o safbwynt enw da CNC yn y dyfodol.

1.3 Er hynny, roedd y tri sefydliad yn rhannu nifer o nodweddion a oedd yn cyfrannu at drosglwyddo hwylus. Er enghraifft, roedd gan bob un beth atebolrwydd i weinidogion Cymru ac oeddent yn chwarae rôl gynghori i Lywodraeth Cymru; roedd ganddynt swyddogaeth reoleiddio i helpu i warchod a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol; ac roeddent yn gweithio i annog y cyhoedd i wneud defnydd o'r mannau a reolid ganddynt.

1.4 Cyfrannodd Llywodraeth Cymru £3 miliwn mewn cyllid Buddsoddi i Arbed[7] i hwyluso sefydlu CNC, i dalu costau TGCh yn bennaf. Ad-dalodd CNC £1.5 miliwn o'r swm hwn yn 2014-15 ac mae'n ad-dalu'r £1.5 miliwn arall yn 2015-16.

7 Rhoddodd Llywodraeth Cymru £6 miliwn o gyllid Buddsoddi i Arbed ychwanegol i CNC tuag at gostau dau gynllun diswyddo gwirfoddol.

## Ers ei greu, mae CNC wedi cynnal dilyniant busnes ac mae hefyd wedi delio'n effeithiol â rhai digwyddiadau difrifol

### Gyda chymorth cynllun corfforaethol a fframwaith perfformiad clir, mae CNC wedi parhau i ddarparu gwasanaethau'r cyrff etifeddiaeth, er ei bod yn anodd asesu tueddiadau mewn perfformiad

1.5 Mae CNC wedi parhau â'r gwasanaethau o ddydd i ddydd a oedd yn cael eu darparu gan y cyrff etifeddiaeth, drwy ddod â gwasanaethau'n fewnol a thrwy gymryd neu ail negodi cytundebau lefel gwasanaeth. Mae CNC hefyd wedi ymgymryd â rhai gwasanaethau a arferai gan eu darparu gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys trwyddedu morol a thrwyddedu bywyd gwyllt gwarchodedig gan y DU ac Ewrop[8]. Er mwyn helpu i gadw gwasanaeth hwylus i gwsmeriaid, mae CNC wedi sefydlu canolfan gofal cwsmeriaid, a oedd yn weithredol o'r diwrnod breinio, a oedd yn golygu bod nifer y rhifau ffôn cyswllt yn lleihau o 10 i un. Mae'r ganolfan yn prosesu ceisiadau am drwyddedau, ac mae'n ymateb i alwadau a negeseuon e-bost, yn delio â materion yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar swyddogaethau CNC. Mae'r ganolfan yn delio ag oddeutu 90 y cant o'r ymholiadau, gyda 10 y cant yn cael eu hatgyfeirio i adrannau eraill. Mae Ffigur 3 yn dangos peth data ar berfformiad y ganolfan yn 2014-15.

Ffigur 3 – Data perfformiad Canolfan Gofal Cwsmeriaid CNC, 2014-15

**41,122**
Galwadau ffôn a atebwyd

**98 per cent**
Galwadau ffôn a atebwyd o fewn 15 eiliad (targed 90 y cant)

**11,082**
Negeseuon e-bost a gafwyd ac a atebwyd

**5,177**
Ceisiadau am drwyddedau papur a broseswyd

**1,453**
Ceisiadau am hawlenni a broseswyd

**95 per cent**
Ceisiadau am hawlenni a broseswyd o fewn tri diwrnod[1] (targed 90 y cant)

Noder:
1 Mae hyn yn cyfeirio at broses y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid o wirio ceisiadau a phrosesu taliadau perthnasol cyn trosglwyddo'r cais i'r timau trwyddedu ehangach.

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

8 Mae trwyddedau morol yn ofynnol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ar gyfer gweithgareddau fel carthu neu adeiladu porthladdoedd. Mae trwyddedau rhywogaethau gwarchodedig yn ofynnol ar gyfer ystod o weithgareddau a all effeithio ar rywogaethau penodol sydd wedi'u dosbarthu fel rhai gwarchodedig o dan gyfraith y DU ac Ewrop. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys gwaith adeiladu a all amharu ar rywogaethau gwarchodedig; a defnyddio rhywogaethau gwarchodedig i ddibenion gwyddonol neu addysgol.

1.6 Yn ystod ei flwyddyn weithredol gyntaf, cyhoeddodd CNC Gynllun Corfforaethol tair blynedd ar gyfer y cyfnod 2014 i 2017. Roedd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar ddangosyddion a chanlyniadau a oedd yn seiliedig ar bum thema 'Da' (Blwch 1) sydd ar hyn o bryd yn sail i weithgarwch ac adrodd CNC. Datblygodd CNC y cynllun corfforaethol ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, staff, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd. Mae'r cynllun yn dangos bod CNC wedi sefydlu gweledigaeth a phwrpas clir. Mae'r cynllun yn cyfeirio at y buddiannau a'r arbedion posibl a amlinellwyd yn yr achos busnes; ac mae'n alinio â chynlluniau busnes un flwyddyn CNC sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac allbynnau. Mae CNC wedi cydnabod bod ei strategaethau a'i gynlluniau o dan lefel y cynllun corfforaethol a'r cynllun busnes wedi datblygu mewn ystod o fformatau, ac mae ar hyn o bryd yn gwneud rhagor o waith i gysylltu cynllunio'n fwy eglur ar bob lefel o'r sefydliad. Mae CNC yn creu templed safonol i fynegi holl strategaethau'r dyfodol fel 'Cynllun Galluogi' sy'n cynnwys datganiad strategol sy'n cysylltu â'r cynllun corfforaethol; cynllun atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n cysylltu â'r fframwaith perfformiad; a chynllun gweithredu sy'n cysylltu â'r cynllun busnes, a chynlluniau cyflenwi cyfarwyddebau, timau ac unigolion.

**Blwch 1 – Themâu 'Da' CNC**

- **Gwybodaeth dda** – mae gwybodaeth dda yn ein helpu i wneud penderfyniadau da.
- **Da i'r Amgylchedd** – sicrhau bod ein hecosystemau yn gydnerth, bod ein bywyd gwyllt a'r dirwedd yn cael eu cyfoethogi a bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n ofalus.
- **Da i Bobl** – sicrhau bod pobl yn ddiogel, eu bod yn gallu elwa ar a mwynhau ein hadnoddau naturiol a'u bod yn deall pa mor berthnasol yw'r adnoddau hyn i'n bywydau bob dydd.
- **Da i Fusnes** – Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrechu i wneud Cymru yn 'lleoliad o ddewis' i fusnes a menter ac yn wlad lle mae arferion rheolaeth amgylcheddol gorau yn cael eu mabwysiadu a'u hannog.
- **Sefydliad Da** – Ymdrechu i wneud Cyfoeth Naturiol Cymru y sefydliad gorau posibl.

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

1.7 Mae fframwaith mesur perfformiad CNC yn olrhain cynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol tair blynedd a'r Cynllun Busnes blynyddol, a thargedau achos busnes sy'n gysylltiedig â buddiannau ac arbedion a fwriadwyd. Mae dangosyddion hefyd yn cysylltu â blaenoriaethau gweinidogion a meysydd risg corfforaethol. Mae CNC yn adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd bob pedwar mis, gyda phapurau'r Bwrdd ar gael ar wefan CNC. Mae rhai o'r dangosyddion yn adlewyrchu agweddau ar weithrediadau o ddydd i ddydd CNC, ac maent felly'n cyfrannu at helpu rhanddeiliaid i sylweddoli bod CNC yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau craidd. Er enghraifft, mae dangosyddion sy'n ymdrin â rheoli Ystâd Goedwigoedd Llywodraeth Cymru er mwyn cyrraedd safonau'r diwydiant; amserlenni ar gyfer cyhoeddi trwyddedau, hawlenni a chaniatâd; a chyhoeddi gwybodaeth ar reoli perygl o lifogydd.

1.8 Roedd dangosfwrdd perfformiad y cynllun busnes ar gyfer 2014-15 yn dangos 28 dangosydd gwyrdd ‘o fewn y targed’ allan o 41 (Ffigur 4). Roedd un o’r dangosyddion coch yn cyfeirio at faterion tymor hir ar gyflwr safleoedd Natura 2000[9], ac roedd y dangosydd coch arall yn cyfeirio at gamau i atal colledion mewn bioamrywiaeth, ac nid yw’r un o’r ddau yn gwbl ddibynnol ar gyfraniad CNC. Nid oedd CNC wedi rhoi statws i ddau ddangosydd oherwydd diffyg gwaelodlin. Rhoddodd tîm archwilio mewnol CNC sicrwydd sylweddol[10] ar gywirdeb perfformiad a adroddwyd ar ddangosfwrdd 2014-15 ym Mai 2015.

Ffigur 4 – Crynodeb o ddangosydd perfformiad Dangosfwrdd y Cynllun Busnes 2014-15




Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru 2014-15

1.9 Mae’n anodd asesu tueddiadau mewn perfformiad oherwydd nad oedd modd cymharu dangosyddion perfformiad 2014-15 yn uniongyrchol â dangosyddion 2013-14 nac â’r mesurau a ddefnyddiwyd gan y cyrff etifeddiaeth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae safbwyntiau cymysg o ran a yw CNC wedi cynnal lefel y gwasanaeth a ddarparwyd yn flaenorol gan y cyrff etifeddiaeth (Astudiaeth Achos 1).

9 Mae safleoedd Natura 2000 yn rhwydwaith ecolegol o ardaloedd gwarchodedig ledled yr Undeb Ewropeaidd a sefydlwyd i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd mwyaf gwerthfawr Ewrop yn goroesi.
10 Lefel Sylweddol o sicrwydd yw’r lefel uchaf o sicrwydd allan o bedwar sgôr posibl, ac fe’i diffinnir fel ‘y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli sy’n ddigonol ac yn effeithiol’.

## Astudiaeth Achos 1 – Enghreifftiau sy'n ymwneud â pharhad gweithrediadau o ddydd i ddydd CNC


### Yr Ystâd Goedwig Gyhoeddus



Mae CNC wedi cynyddu'r cyflenwad o bren i'r farchnad. Yn 2012-13, roedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cyflenwi 801,000m³ o bren i'r farchnad. Yn 2013-14 a 2014-15, cyflenwodd CNC 887,000m³ a 869,000m3 o bren i'r farchnad yn y drefn honno.

Fodd bynnag, dangosodd tystiolaeth i ymchwiliad 2014 Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol i'r ystâd goedwig gyhoeddus fod rhai cyrff allanol yn teimlo bod dirywiad wedi bod yn y pwyslais masnachol ac yn y ffordd yr oedd yr ystâd goedwig gyhoeddus wedi cael ei rheoli ers creu CNC. Nododd y Pwyllgor fod prosesau'n ymwreiddio a bod cyfathrebu wedi gwella rhwng CNC a chyrff eraill. Roedd CNC yn derbyn canfyddiadau'r Pwyllgor a chytunodd CNC, Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Fusnes Coedwig Cymru a Confor (sefydliad aelodaeth sy'n hyrwyddo busnesau carbon isel a choedwigaeth gynaliadwy) ym mis Rhagfyr 2014 ar gynllun gweithredu ar y cyd i roi sylw i'r materion hyn, ac maent yn gweithio i'w gweithredu. Mae CNC yn paratoi diweddariadau yng nghyfarfodydd chwe-misol y sector busnes coedwig, sy'n dangos bod CNC wedi cwblhau sawl cam y cytunwyd arnynt a'i fod yn parhau i weithredu ar y meysydd sydd heb eu cwblhau.

### Trwyddedu ynni dŵr



Mae CNC wedi ymgymryd â swyddogaeth delio â cheisiadau am drwyddedau ynni dŵr oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Bu cynnydd yn nifer y trwyddedau a gyhoeddwyd o naw yn 2010 i 99 yn 2014. Newidiodd CNC y dull o asesu effaith cynlluniau ynni dŵr yn Ebrill 2014 gan gynnwys cyhoeddi canllaw newydd a gynhyrchwyd ar y cyd â Grŵp Rhanddeiliaid Ynni Dŵr. Arweiniodd hyn at ostyngiad yng nghyfran y ceisiadau annilys o 52 y cant rhwng Awst 2013 a Mehefin 2014, i 20 y cant rhwng Gorffennaf 2014 a Mawrth 2015. Bu gostyngiad hefyd yn yr amser cyfartalog a gymerwyd i brosesu ceisiadau yn fewnol o 91 diwrnod i 53 diwrnod dros yr un cyfnod, gan gynnig gwasanaeth gwell i gwsmeriaid.

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Comisiwn Coedwigaeth Cymru 2012-1; Cyfoeth Naturiol Cymru; **Ymchwiliad i'r ystâd goedwig gyhoeddus yng Nghymru** – Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.10 Ar gyfer 2015-16, mae CNC wedi defnyddio dangosyddion 2014-15 fel sail i'r dangosyddion yn nangosfwrdd perfformiad ei gynllun busnes cyfredol er mwyn gallu asesu cynnydd yn fwy hwylus. Mae 32 o ddangosyddion fwy neu lai'r un fath ond gyda thargedau wedi'u diweddaru, ac mae naw wedi'u disodli gan ddangosyddion newydd neu, mewn rhai achosion, gan fwy nag un dangosydd.

1.11 Mae data ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2015 yn dangos bod nifer y marciau gwyrdd a melyn fwy neu lai'r un fath â'r nifer yn 2014-15 (Ffigur 5). Fodd bynnag, pan mae'r dangosyddion yn cyfeirio at dargedau blynyddol, mae CNC yn tueddu i ystyried y rhain yn felyn yn ystod y flwyddyn, hyd yn oed os yw'r cynnydd yn awgrymu eu bod yn mynd i gael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Felly mae CNC yn disgwyl i rai dangosyddion sy'n felyn ar hyn o bryd newid i wyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.

Ffigur 5 – Crynodeb o ddangosyddion perfformiad Dangosfwrdd Cynllun Busnes, 1 Ebrill 2015 i 30 Tachwedd 2015

| | Dangosyddion a ddygwyd ymlaen o 2014-15 | | Dangosyddion newydd |
|---|---|---|---|
| Sgôr | Sgôr diwedd blwyddyn 2014-15 | 1 Ebrill hyd 30 Tachwedd 2015 | 1 Ebrill hyd 30 Tachwedd 2015 |
| Gwyrdd | 22 | 20 | 6 |
| Melyn | 6 | 7 | 3 |
| Coch | 2 | 5 | 0 |
| Dim sgôr | 2 | 0 | 0 |

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

1.12 O'r ddau ddangosydd coch ar ddiwedd 2014-15 (paragraff 1.8), mae'r dangosydd a oedd yn cyfeirio at arafu colledion bioamrywiaeth wedi newid i wyrdd, ac mae'r dangosydd sy'n cyfeirio at gyflwr safleoedd Natura 2000 yn dal yn goch. Mae'r tri dangosydd coch newydd yn cyfeirio at y canlynol:

- Cydymffurfio â'r 'statws da' o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[11] (heb ei farcio yn 2014-15).
- Ymgysylltu â staff, bydd CNC yn asesu hyn yn ei Arolwg Pobl ym mis Chwefror 2016 (heb ei farcio yn 2014-15).
- Cyflawni yn erbyn Cynllun Galluogi Hamdden a Mynediad CNC, lle na fydd y targed o bedwar cynllun Hamdden a Mynediad yn cael ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2016 er mwyn sicrhau llai o gynlluniau o safon uchel (marc gwyrdd yn 2014-15 pan mai cwblhau'r Cynllun cyffredinol oedd y targed).

11 Yn dilyn ei adroddiad ym mis Mawrth 2015 ar gynllun amaeth-amgylcheddol Glastir, gofynnodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru am y gyfran benodol o fethiannau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y gellid eu priodoli i dir sy'n cael ei reoli gan CNC. Yn ei hymateb, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru fod cyfuniad cymysg o berchnogion tir yn y dalgylchoedd sy'n effeithio ar y cyrff dŵr diffygiol. Yn sgil hynny, mae gan berchnogion tir preifat a chyhoeddus ran i'w chwarae i ddatrys y problemau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o'r gwaith mae CNC wedi'i wneud er mwyn deall yr hyn sy'n achosi'r methiannau hyn a chynnig atebion.

- Cynnydd yn nifer y digwyddiadau yn ymwneud â staff CNC sydd wedi arwain at amser i ffwrdd (marc gwyrdd yn 2014-15). I leihau nifer y digwyddiadau, mae CNC wrthi'n eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn nodi mesurau ataliol a rhannu'r gwersi a ddysgwyd.

1.13 Mae Llywodraeth Cymru yn asesu perfformiad CNC yn erbyn ei lythyr cylch gwaith blynyddol at CNC. Mae'r llythyr yn amlinellu'r prif amcanion ar gyfer CNC; ac mae targedau yn y llythyr yn adlewyrchu gweledigaeth strategol dymor hir CNC. Mae CNC yn ymgorffori blaenoriaethau'r llythyr cylch gwaith yn ei gynllun busnes blynyddol. Mae adroddiadau perfformiad i Fwrdd CNC yn destun craffu ffurfiol gan Lywodraeth Cymru mewn cyfarfodydd nawdd bob pedwar mis[12]. Yn sgil y cyfarfodydd nawdd, y cynllun busnes a'r cynllun corfforaethol, mae Llywodraeth Cymru yn gallu gweld beth mae CNC yn bwriadu ei wneud i gyflawni blaenoriaethau'r llythyr cylch gwaith. Mae trefniadau nawdd yn ymddangos yn gydnerth a chynaliadwy ac mae Llywodraeth Cymru a CNC yn gweld eu perthynas fel un adeiladol a phositif.

1.14 Ym mis Ionawr 2014, adroddodd gwasanaethau archwilio mewnol Llywodraeth Cymru ar y trefniadau nawdd ar gyfer CNC a nodwyd fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud i sefydlu trefniadau nawdd gyda chanfyddiad cyffredinol o sicrwydd sylweddol. Gwnaeth yr adroddiad bum prif argymhelliad i gryfhau rheolaeth nawdd, yn ymwneud yn bennaf â gwella trefniadau monitro. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw i bob un o'r pum argymhelliad erbyn mis Hydref 2014.

## Mae CNC wedi delio'n effeithiol â digwyddiadau mawr fel llifogydd arfordirol Rhagfyr 2013 ac Ionawr 2014 a'r clefyd coed

1.15 Ers Ebrill 2013, bu dau achos mawr iawn o lifogydd arfordirol: ar arfordir y gogledd ym mis Rhagfyr 2013 ac yn y de a'r gorllewin ym mis Ionawr 2014. Yn ystod Rhagfyr 2013 ac Ionawr 2014, cyhoeddodd CNC wyth Rhybudd Llifogydd Difrifol a dros 100 Rhybudd Llifogydd[13]. Dywedodd CNC fod difrifoldeb y nifer y rhybuddion yn ddigyffelyb yn y blynyddoedd diwethaf, gyda threfniadau i symud pobl wedi eu rhoi ar waith mewn nifer o fannau. Yn dilyn y llifogydd arfordirol, comisiynydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd CNC i gynnal adolygiad o'r llifogydd. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod yr ymateb gweithrediadol gan CNC, ac awdurdodau eraill perthnasol[14] wedi'i 'gydlynu, yn effeithiol ac yn gymesur'. Gwnaeth yr adolygiad 47 o argymhellion mewn chwe maes blaenoriaeth i helpu i sicrhau gwasanaeth rheoli perygl o lifogydd arfordirol ac erydu mwy cydnerth. Bydd adroddiad arfaethedig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn edrych sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio â CNC a rhanddeiliaid perthnasol eraill i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

12 Mae'r rhain yn gyfarfodydd rhwng Prif Weithredwr a thîm gweithredol CNC; a chyfarwyddwyr a dirprwy gyfarwyddwyr meysydd polisi perthnasol Llywodraeth Cymru.

13 Rhybudd Llifogydd Difrifol yw'r hysbysiad uchaf ac mae'n golygu 'Llifogydd Difrifol: Perygl i Fywyd'. Mae Rhybudd Llifogydd yn golygu 'Mae disgwyl llifogydd. Mae angen gweithredu ar unwaith'.

14 Roedd 31 o Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd yng Nghymru, gan gynnwys CNC, y 22 awdurdod lleol; cwmnïau cyfleustodau, er enghraifft Dŵr Cymru Welsh Water; a'r tri Bwrdd Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru, ac sydd bellach yn rhan o CNC.

1.16 Ers creu CNC, bu cynnydd sylweddol yn ymlediad y clefyd coed Phythophthora ramorum, sy'n achosi haint a marwolaeth mewn coed llarwydd yn bennaf. Canfuwyd y clefyd yng Nghymru am y tro cyntaf ym mis Mai 2010 ac ers hynny dyma'r clefyd mwyaf difrifol i effeithio ar goedwigaeth yng Nghymru, gan effeithio ar dros chwe miliwn o goed ar ystâd goedwig Llywodraeth Cymru yn bennaf[15]. Canfu CNC ymlediad y clefyd yn ystod mis cyntaf ei fodolaeth, ac mae wedi gweithredu nifer o ddulliau hyd yma i geisio mynd i'r afael â'r clefyd. Roedd rhai tystion gerbron Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol yn ymchwiliad 2014 i'r ystâd goedwig gyhoeddus yng Nghymru yn feirniadol o ymateb CNC i'r clefyd, gan ddweud bod yr ymateb cychwynnol yn rhy araf[16]. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor fod yr amseriad yn anffodus ac y byddai wedi achosi problemau mawr i unrhyw sefydliad. Yn Ionawr 2014, canfu astudiaeth gan Brifysgol Caergrawnt os yw adnoddau'n brin, y dull mwyaf effeithiol o atal y clefyd yw drwy'r dorri coed pellaf sydd wedi'u heintio, gan efelychu'r dull a fabwysiadwyd gan CNC a Llywodraeth Cymru.

1.17 Rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2015, ailblannodd CNC dros 1.75 miliwn o goed i ailstocio'r mannau hynny a oedd wedi'u heffeithio gan y clefyd, gan blannu cymysgedd o rywogaethau i gymryd lle'r llarwydd i gyfoethogi amrywiaeth y coed ac i'w gwneud yn fwy cydnerth i wrthsefyll unrhyw heintiau yn y dyfodol. Mae'r ailstocio hwn yn ychwanegol at tua 5.5 miliwn o goed a ailblannwyd yn ystod yr un cyfnod i adfywio coedwigoedd ar ôl torri coed am eu pren.

15 **Coedwigaeth yng Nghymru**, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tachwedd 2013, **Phytophthora.ramorum**, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Medi 2015

16 Llythyr **Ymchwiliad i'r ystâd goedwig gyhoeddus yng Nghymru**, Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Hydref 2014.

## Mae CNC wedi mabwysiadu dull cadarn, trefnus a phragmataidd i symud o’r trefniadau blaenorol i fod yn un corff

### Roedd CNC wedi sefydlu rhaglen bontio gadarn am ei ddwy flynedd gyntaf, gan ddysgu gwersi o ffynonellau eraill ac wedi diwygio ei gynlluniau i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth

1.18 Ers ei greu ym mis Ebrill 2013, bu CNC yn dilyn rhaglen bontio bellgyrhaeddol i sicrhau bod y sefydliad yn gwneud cynnydd. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar drawsnewid i sefydlu CNC fel corff annibynnol ac i wireddu rhai o fuddiannau cynnar integreiddio. Y dyddiad targed ar gyfer cwblhau’r cam cyntaf hwn oedd mis Mawrth 2015. Ym mis Rhagfyr 2013, penododd CNC adolygwyr allanol i gynnal adolygiad ‘Gateway’ ffurfiol o’r rhaglen. Canfu’r adolygiad nad oedd CNC yn debygol o gwblhau cam un yn llawn erbyn mis Mawrth 2015, ac adolygodd CNC ei gynlluniau cam un i ganolbwyntio ar gwblhau’r amcanion allweddol o fewn yr amserlen wreiddiol. Arweiniodd hyn at newidiadau i’r amserlen ar gyfer cyflwyno systemau TGCh CNC a gadael y systemau etifeddiaeth.

1.19 Mae rhaglen y cyfnod pontio wedi bod yn eang gyda chysylltiadau da rhwng gweithgareddau cysylltiedig. Roedd portffolio’r rhaglen newid yn cynnwys 25 o is-raglenni gyda dros 120 o brosiectau, gyda phob un ohonynt yn cynnwys rhagor o is-brosiectau. Dangosodd diweddariad cynnydd y rhaglen bontio derfynol ym mis Ebrill 2015 fod bron pob un o’r is-raglenni wedi’u cwblhau neu o fewn y targed ar gyfer y cyfnod pontio, yn dilyn diwygiadau a wnaethpwyd o ganlyniad i’r adolygiad gateway (Ffigur 6). Rhoddodd CNC sgôr melyn i un rhaglen, Samplo a Dadansoddi, o ganlyniad i oedi cyn gweithredu ‘system rheoli gwybodaeth labordai’ er bod hyn ar waith bellach ac ar y trywydd iawn i gael ei gyflwyno erbyn diwedd mis Mawrth 2016.

Ffigur 6 – Cynnydd y rhaglen bontio fis Ebrill 2015




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru


1.20 Mae tystiolaeth o ddull trefnus a systematig iawn o reoli perfformiad fel rhan o’r rhaglen newid, gan gynnwys tîm pontio sy’n ei chydlynu ac yn adrodd i Fwrdd CNC. Mae CNC wedi canfod arferion da a ddefnyddir gan Ofcom, Natural England a’r Bathdy Brenhinol o ran dylunio, rheoli, monitro a chyfleu ei raglen rheoli newid. Mae CNC wedi mabwysiadu ac addasu’r arferion da hyn o fewn ei raglen bontio.

## Ar ôl Ebrill 2013, sefydlodd CNC strwythur sefydliadol a oedd yn rhoi pwyslais ar gyfuno adrannau etifeddiaeth yn ôl daearyddiaeth, ac mae CNC wedi esblygu’r strategaeth ymhellach i gynyddu arbedion effeithlonrwydd ac i roi sylw i ddeddfwriaeth a ffyrdd newydd o weithio

1.21 Cyn creu CNC, roedd y trefniadau cysgodol wedi mapio’r cyfarwyddiaethau a’r timau trosfwaol o fewn strwythur sefydliadol CNC. Arweiniodd y strwythur at greu cyfarwyddiaethau gweithredol yn seiliedig ar ddaearyddiaeth a swyddogaeth, gan ddwyn ynghyd staff sy’n gyfrifol am rolau corfforaethol tebyg neu am gyflawni gweithgareddau tebyg yn yr un maes. Rhoddodd CNC y strwythur hwn ar waith ar ddiwrnod creu’r sefydliad ar 1 Ebrill 2013.

1.22 Mae Ffigur 7 yn dangos strwythur sefydliadol cyfredol CNC ar lefel cyfarwyddiaethau. Nid yw’r strwythur cyfarwyddiaethau wedi newid llawer ers y diwrnod breinio. Fodd bynnag, o fewn cyfarwyddiaethau, mae CNC wedi diwygio strwythurau drwy’r rhaglen bontio i greu alinio ac integreiddio gwell; ac mae’n cydnabod effeithiau gadael y trefniadau a oedd yn gysylltiedig â’r cyrff etifeddiaeth mewn swyddogaethau fel cyllid a TGCh. Mae CNC hefyd wedi ymgymryd â dau gynllun diswyddiadau gwirfoddol i hwyluso’r newidiadau hyn (paragraff 2.42). Mae CNC hefyd wedi datblygu strwythurau er mwyn ystyried cyfrifoldebau deddfwriaethol y dyfodol a ffyrdd newydd o weithio yn seiliedig ar reoli cyfoeth naturiol. Mae CNC wedi dweud wrthym y bydd yn gwneud newidiadau strwythurol pellach, ar sail yr hyn sydd ei angen er mwyn cyflawni pwrpas y sefydliad.

Ffigur 7 – Strwythur sefydliadol CNC ar lefel cyfarwyddiaethau, Hydref 2015[1]




Nodyn:

1. Rhwng Ebrill 2013 a mis Hydref 2015, mae'r cyfarwyddiaethau Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu a Llywodraethu a Chynllunio wedi cael cymryd lle'r gyfarwyddiaeth Llywodraethu a Chyfathrebu; ac mae'r gyfarwyddiaeth Portffolio Trawsnewid wedi cymryd lle'r gyfarwyddiaeth Bontio.

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

## Mae trefniadau CNC ar gyfer llywodraethu a rheolaeth ariannol yn gadarn ar y cyfan, er bod problemau wedi bod gyda galluogrwydd archwilio mewnol a chanfyddiadau staff o arweinyddiaeth

1.23 Ers y diwrnod breinio, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cytundeb fframwaith llywodraethu ar gyfer CNC mewn ymgynghoriad â threfniadau cysgodol CNC. Mae'r fframwaith yn amlinellu'r cyfrifoldebau mae Llywodraeth Cymru wedi'u dirprwyo i CNC a'r safonau a ddisgwylir. Cynhaliodd CNC a Llywodraeth Cymru adolygiad ffurfiol o'r fframwaith yn ystod haf 2014 a chytunwyd fod y fframwaith yn gweithio'n dda.

1.24 Mae CNC yn cyhoeddi manylion ei drefniadau llywodraethu yn ei Ddatganiad Llywodraethu sy'n rhan o Adroddiad Blynyddol CNC. Mae datganiad 2014-15 yn cynnwys manylion am y fframwaith llywodraethu sydd ar waith; rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd, yr is-bwyllgorau, a'r tîm gweithredol; mecanweithiau i adolygu rheolaethau a rheoli risg mewnol. Bu ein harchwiliad ariannol o CNC yn adolygu'r datganiad llywodraethu a chanfuwyd ei fod yn cyd-fynd â'n gwybodaeth ni am y trefniadau sydd ar waith.

1.25 Mae gan CNC Fwrdd sy'n cael ei redeg yn dda, gyda thri is-bwyllgor ffurfiol sy'n cynnwys Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, Pwyllgor Tâl a Phwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, sy'n cynnwys is-grwpiau ychwanegol. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnal adolygiadau blynyddol o effeithiolrwydd gyda gweithdai a chynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu mewn ymateb. Dangosodd arsylwi ar gyfarfod o'r Bwrdd brosesau penderfynu cadarn, a herio a chraffu priodol. Mae perthnasoedd ymhlith aelodau'r Bwrdd a'r tîm uwch arweinyddion yn adeiladol ac effeithiol ar y cyfan. Tynnodd rhai aelodau staff sylw at broblemau yn y gorffennol yn ymwneud â diffyg eglurder rhwng y Bwrdd a'r tîm uwch arweinyddion, ond roeddent yn teimlo bod y rhain wedi'u datrys erbyn hyn.

1.26 Dangosodd CNC arweinyddiaeth agored a chynhwysol i ni ac mae'n ymddangos bod y tîm uwch arweinyddion yn unedig yn ei awydd i gyflwyno neges glir. Fodd bynnag, canfu tystiolaeth o arolwg staff cyntaf CNC a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2014 bryderon am arweinyddiaeth a rheoli newid; dim ond 14 y cant o'r ymatebwyr ymatebodd yn bositif bod newid yn cael ei reoli'n dda; ac atebodd 20 y cant yn bositif bod y sefydliad yn ei gyfanrwydd yn cael ei reoli'n dda. Mae CNC wedi ymrwymo i ymgysylltu'n well â staff ac mae ganddo gynllun gweithredu i ymateb i'r materion a godwyd gan y rhai a oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg staff.

1.27 Mae CNC wedi gwneud cynnydd da ar gysoni polisïau a phrosesau corfforaethol. Mae Blwch 2 yn rhoi enghreifftiau o feysydd lle mae CNC wedi datblygu polisïau cyffredin. Mae CNC yn rheoli cydymffurfiad ag amryw o ddeddfwriaethau yn bennaf drwy swyddogion unigol mewn rhannau perthnasol o'r busnes, er enghraifft, Cynghorydd Cydraddoldeb, Pennaeth Lles, Iechyd a Diogelwch, Uwch Gynghorydd Mynediad at Wybodaeth, a Phartner Llywodraethu.

**Blwch 2 – Enghreifftiau o bolisïau corfforaethol CNC**

Ers ei greu, mae CNC wedi cysoni polisïau corfforaethol i greu polisïau sengl cyffredin mewn ystod o feysydd gan gynnwys:

- materion adnoddau dynol fel treuliau, rheoli perfformiad ac absenoldeb salwch;
- cydraddoldeb;
- lles, iechyd a diogelwch;
- chwythu'r chwiban;
- cwynion;
- atal a chanfod twyll;
- rheoli'r amgylchedd; a
- rheoli gwrthdrawiad buddiannau.

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

1.28 Er Ebrill 2013, mae CNC wedi cyflwyno cynlluniau dirprwyo ariannol ac anariannol. Mae'r rhain yn creu polisïau cyffredin ar draws y sefydliad ar gyfer gweithgareddau ariannol a gwneud penderfyniadau. Yn ystod 2014-15, rhoddodd CNC system Adnoddau Dynol a Chyllid integredig sengl, 'MyNRW', ar waith, ac mae cynlluniau dirprwyo ariannol wedi'u hymgorffori ynddi. Yn 2015, cynhaliodd CNC adolygiad o'r cynllun dirprwyo ariannol, a oedd yn cynnwys ymgynghori â'r cyfarwyddiaethau. Canfu'r adolygiad nad oedd y cynllun presennol yn arwain bob amser at y llwybr cymeradwyo mwyaf effeithiol a gallai fod yn ddryslyd i staff. Mae CNC wedi ailddatblygu'r cynllun, ac mae wedi'i ailenwi'n Managing Our Money. Mae CNC wedi meincnodi'r cynllun dirprwyo newydd yn erbyn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, y fframwaith llywodraethu, a pholisïau mewnol, a chynhaliwyd ymgynghoriad ag Archwilio Mewnol, i sicrhau bod y cynllun yn cydymffurfio â meini prawf rheoliadol a'i fod yn cydymffurfio â gweledigaeth a blaenoriaethau CNC.

1.29 Mae deiliad cyllideb ym mhob cyfarwyddiaeth yn rheoli cyllideb CNC o ddydd i ddydd. Mae'r tîm cyllid yn cynhyrchu adroddiadau misol sy'n monitro'r gyllideb ar gyfer cyfarwyddiaethau a deiliaid cyllidebau, ac mae'n darparu cymorth ac arweiniad ariannol. Mae'r adroddiadau'n cynnwys papurau diweddaru misol ar gyfer y Tîm Gweithredol a phapurau eraill ar gyfer pob cyfarfod o'r Bwrdd sy'n olrhain cynnydd gwirioneddol y flwyddyn hyd yma yn erbyn y gyllideb a'r rhagamcan ar gyfer yr alldro blwyddyn gyfan. Mae CNC yn cynnal adolygiadau ffurfiol o'r gyllideb gyda phob cyfarwyddiaeth yn ystod y flwyddyn i ddiwygio'r gyllideb ac i ganfod unrhyw broblemau sylweddol sydd angen blaenoriaeth. Er enghraifft, yn ystod 2013-14 gofynnodd a chaniatawyd cyllid ychwanegol i CNC gan Lywodraeth Cymru i gyfrannu at ddiffyg ar wariant a oedd yn gysylltiedig â chlefyd coed.

1.30 Mae CNC yn gwneud pob ymdrech i fantoli'r gyllideb, gyda gwariant ac incwm yn hafal. Fodd bynnag, gall CNC ddwyn arian ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r nesaf, hyd ar bump y cant o'i gyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Gall hefyd ddwyn ymlaen hyd at 20 y cant o incwm nad yw'n gyllid grant, fel incwm o werthu pren ac incwm masnachol arall (ac eithrio cynlluniau taliadau). Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth gynllunio a rheoli'r gyllideb, a gall helpu cynllunio tymor hir. Mae CNC wedi dwyn ymlaen yr incwm canlynol:

a Yn 2013-14, roedd gan CNC £1.2 miliwn o gyllid diwedd blwyddyn i'w ddwyn ymlaen yn ychwanegol at £16.2 miliwn o gymorth grant a chyllid Ewropeaidd a oedd wedi'i neilltuo i'w ddwyn ymlaen i fodloni pwysau penodol yn 2014-15, fel delio â chlefydau coed.

b Yn 2014-15, roedd gan CNC £20.5 miliwn i'w ddwyn ymlaen, gyda £18.2 miliwn ohono ar gyfer rhaglenni penodol sydd wedi'u neilltuo.

Dywedodd CNC fel rhan o'i ddadansoddiad diwedd blwyddyn ar gyfer 2014-15 ei bod ceisio defnyddio'n llawn yr arian sydd wedi'i fwriadu ar gyfer crynhoi asedau mewn blwyddyn ariannol sy'n agored i lawer o ffactorau fel y tywydd; a'i bod yn gallu bod yn anodd cynllunio'n effeithiol a gwario cyllid ychwanegol a gafwyd yn y flwyddyn ar gyfer blaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru.

1.31 Mae ein harchwiliad ariannol yn ystyried a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg ar gyflwr CNC. Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys deall y prosesau a'r rheolaethau ariannol sydd ar waith. Ni amlygodd ein harchwiliad ariannol ddim pryderon o bwys o ran y trefniadau rheolaeth ariannol o fewn CNC yn ystod 2014-15.

1.32 Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru Swyddfa Rheoliadau Gwell yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau i gynnal adolygiad o CNC, yn erbyn egwyddorion rheoliadau gwell. Dangosodd Adroddiad Mehefin 2015 fod gan CNC ddealltwriaeth gyffredinol o egwyddorion rheoliadau da a'i fod wedi ymrwymo i ymgorffori'r rhain yn ei ffyrdd o weithio. Mae Paragraff 2.17 yn cynnwys rhagor o fanylion am ganfyddiadau'r adroddiad.

1.33 Mae swyddogaeth archwilio mewnol CNC at ei gilydd yn rhoi sicrwydd digonol i'r rheolwyr am drefniadau a rheolaeth fewnol. Yn 2013-14 ac yn 2014-15, rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd cymedrol[17] ar gyfer digonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheolaeth fewnol gyffredinol CNC. Yn ystod 2014-15, rhoddodd archwilio mewnol sicrwydd sylweddol i lywodraethu corfforaethol a'r fframwaith perfformiad. Fodd bynnag, nododd ein harchwiliad ariannol o CNC ar gyfer 2014-15 fod archwilio mewnol wedi rhoi rôl sicrwydd ar y Bwrdd Prosiect MyNRW ond nad oedd wedi cynnal unrhyw adolygiad manwl o'r systemau ariannol MyNRW newydd. Mae archwilio mewnol wedi cynnwys rhoi sylw i'r systemau ariannol allweddol yn ei raglen flynyddol ar gyfer 2015-16, gyda gwaith yn cael ei wneud yn awr. Roedd archwilio mewnol hefyd wedi profi peth diffyg galluogrwydd, oherwydd bod staff ar secondiad dros dro gyda phrosiectau eraill CNC, ond bod y rhain bellach wedi dod i ben.

## Mae CNC wedi cwblhau newidiadau mawr yn llwyddiannus i'w systemau TGCh, er bod gwaith i integreiddio'n llawn yr holl brosesau TGCh ac i ymgorffori ffyrdd newydd o weithio yn parhau

1.34 Mae CNC wedi gwneud cynnydd sylweddol i resymoli ei drefniadau TGCh, gan gynnwys trosglwyddo o dair system Adnoddau Dynol a chyllid i un system MyNRW newydd yn 2014 (paragraff 1.28). Mae'r integreiddio hwn wedi gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni buddiannau gyda budd ariannol dros gyfnod o 10 mlynedd o £13 miliwn gan gynnwys arbedion TGCh ac arbedion costau staff. Mae CNC hefyd wedi creu ei wasanaeth TGCh mewnol ei hun, ac mae CNC yn amcangyfrif ei fod wedi lleihau cost flynyddol gwasanaethau TGCh o £13 miliwn i £6 miliwn. Yn ei holl weithgareddau, mae CNC yn amcangyfrif y bydd cyfanswm ei arbedion TGCh yn £34 miliwn yn ystod y 10 mlynedd ar ôl ei greu. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r arbedion a fwriadwyd wedi cael eu gwireddu mor gyflym ag y rhagwelwyd yn wreiddiol oherwydd amcangyfrif rhy isel o faint y gwaith oedd ei angen a phroblemau wrth derfynu contractau'r cyrff etifeddiaeth (paragraff 1.47).

1.35 Fel rhan o'n harchwiliad ariannol o CNC ar gyfer 2014-15, buom yn adolygu'r prosesau a'r gweithdrefnau technegol a ddilynwyd gan staff yn CNC i uno data rheolaeth ariannol o'r systemau blaenorol. Ni chanfuwyd unrhyw broblemau sylweddol wrth drosglwyddo data i MyNRW nac unrhyw wendidau sylweddol mewn rheolaeth ariannol fewnol. Fodd bynnag, nododd ein harchwiliad nad oedd y prif systemau ariannol o fewn MyNRW wedi cael unrhyw archwiliad mewnol manwl yn ystod y flwyddyn (paragraff 1.33).

1.36 Mae CNC wedi gweithredu systemau cyfrifiadura cwmwl[18] ar gyfer yr holl staff, y corff cyhoeddus cyntaf yng Nghymru i wneud hynny, ac mae'n annog defnyddio technoleg drwy lechi, Yammer[19] a Microsoft Lync[20]. Mae CNC wedi wynebu her ychwanegol o safbwynt y lefelau dealltwriaeth o TG ymhlith ei staff, gan nad oedd rhai ohonynt wedi defnyddio cyfrifiaduron yn rheolaidd, os o gwbl, o'r blaen. Mae CNC wedi mabwysiadu nifer o gynlluniau i helpu ei staff i ddefnyddio technoleg newydd y gweithle ac i wella eu dealltwriaeth (Astudiaeth Achos 2).

17 Lefel gymedrol o sicrwydd yw'r ail lefel uchel o sicrwydd allan o bedwar sgôr posibl, ac fe'i diffinnir fel 'mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth'.

18 Mae'r rhaglenni electronig mae CNC yn eu defnyddio, fel Microsoft Office, a phob dogfen electronig yn cael eu storio ar weinyddion pell, ac mae modd cael mynediad atynt dros y rhyngrwyd. Mae'r buddiannau yn cynnwys gallu gweithio o bell a rhannu dogfennau yn haws; a llai o rai mathau o offer TG mewnol fel gweinyddion.

19 Rhwydwaith cymdeithasol ar-lein preifat yw Yammer, sy'n galluogi cyflogeion yn yr un sefydliad i rannu sgyrsiau, dogfennau a lluniau.

20 Mae Microsoft Lync yn galluogi defnyddwyr i anfon negeseuon gwib ac i gynnal cynadleddau llais a fideo dros y rhyngrwyd.

**Astudiaeth Achos 2 – Gwella gwybodaeth TGCh staff**

O gofio maint y newid mewn TGCh a'r amrywiadau yng ngwybodaeth flaenorol y staff, un dasg bwysig i CNC oedd hyrwyddo gwell dealltwriaeth o TG ymhlith ei staff. I roi sylw i hyn, mae'r tîm Busnes fel Arfer wedi sefydlu nifer o fesurau arloesol i wella ac i fonitro profiad defnyddwyr TG sy'n cynnwys:

- Fideos YouTube sydd ar gael i bob aelod o staff wrth eu desg, drwy ddyfeisiau symudol neu gartref
- Arolwg TGCh
- Grwpiau Yammer, ac mae llawer wedi manteisio arnynt
- Desg gymorth
- Gweithdai

Hefyd, mae'r Prif Swyddog Gwybodaeth yn teithio i swyddfeydd i gwrdd â chydweithwyr ac yn cynnal deialog wyneb yn wyneb ar faterion digidol a datblygiadau'r dyfodol.

Mae swyddogion TG CNC yn teimlo bod ymwybyddiaeth staff yn gwella yn ôl adborth staff, ond maent yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud i wella canfyddiad defnyddwyr o TG, yn enwedig ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r prosesau i'w dilyn i gael gafael ar gymorth pan fyddant yn dod ar draws problemau TG.

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

1.37 Mae gan CNC gontract â chwmni allanol i ddarparu gwasanaethau cymorth ar gyfer MyNRW, gyda grŵp mewnol ar wahân o'r enw Gwasanaeth Cymorth Busnes wedi'i sefydlu i reoli'r contract hwn. Mae staff mewnol TG helpu swyddogaethau Busnes fel Arfer CNC. Mae'r tîm Busnes fel Arfer yn defnyddio set o ganllawiau ymarfer gorau i gyflenwi'r gwasanaeth TG a adwaenir fel yr IT Infrastructure Library (ITIL). Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau ymarfer gorau ITIL mor sefydledig yn y Gwasanaeth Cymorth Busnes. Ymddengys hefyd fod y berthynas weithio rhwng y timau Busnes fel Arfer a'r Gwasanaeth Cymorth Busnes yn gyfyngedig iawn yn hytrach na bod swyddogaeth wedi ymwreiddio yn y gwasanaeth TG mewnol sy'n rheoli'r berthynas ar ran cyflenwyr allanol ar ran y sefydliad cyfan. Yn dilyn adborth cynnar, mae CNC yn awr wedi dod â'r Gwasanaeth Cymorth Busnes o dan ymbarél 'Cyflenwi Gwasanaeth a Chymorth' o fewn y tîm TG mewnol, gan eu halinio â'r un prosesau a pholisïau yn seiliedig ar ITIL a throsglwyddo'r berthynas weithrediadol gyda'r cwmni allanol o fewn cylch gwaith TGCh.


1.38 Mae CNC wedi bod yn datblygu strategaeth ddigidol newydd, ac roedd wedi cwblhau'r fframwaith a'r egwyddorion erbyn diwedd 2015. Roedd CNC wedi oedi cyn cwblhau'r strategaeth yn llawn nes bod mwy o sicrwydd ynglŷn â manylion y gyllideb a fydd ar gael ar gyfer 2016-17.

## Mae CNC wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei strategaeth adeiladau drwy ddefnyddio proses arfarnu drylwyr a fydd yn arwain at ostyngiad o 19 y cant yn nifer ei safleoedd, er bod lle i wella capasiti'r swyddogaeth asedau corfforaethol i gyflawni rhagor o fuddiannau

1.39 Un maes allweddol lle mae CNC yn disgwyl creu arbedion yw yn y ffordd y mae'n rheoli ac yn rhesymoli ei adeiladau, yn enwedig o ystyried y dyblygu safleoedd rhwng y tri chorff etifeddiaeth mewn rhai lleoliadau. Mae safleoedd CNC yn cynnwys swyddfeydd, depos sy'n cael eu defnyddio'n bennaf i storio offer a cherbydau, cyfleusterau labordy, gweithdai a deorfeydd. Mae CNC wedi cyhoeddi gweledigaeth glir a bwriad ar gyfer rheoli asedau yn ei strategaeth adeiladau, sy'n cysylltu â nifer o amcanion corfforaethol, ac sydd wedi ystyried ystyriaethau strategol ehangach gyda chyfraniad y bwrdd pan oedd hynny'n briodol. Mae'r strategaeth yn disgrifio bwriadau i gynnal arfarniad o opsiynau ar gyfer pob safle yng Nghymru. Mae CNC wedi ystyried gwaith cenedlaethol ar reoli asedau fel adroddiad 2013 Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ar **Reoli Asedau yn y Sector Cyhoeddus**. Fel rhan o hyn, mae CNC wedi bod yn ymgysylltu â'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol.

1.40 Mae CNC wedi gwneud cynnydd da wrth resymoli ei adeiladau, er nad yw wedi cyrraedd ei darged ar gyfer cyfnod pontio un, a fyddai'n arwain at 20 yn llai o safleoedd. O fan cychwyn o 79 o safleoedd, mae CNC wedi cyflwyno camau a fyddai'n lleihau nifer y safleoedd o 15 i 64, gostyngiad o 19 y cant (Ffigur 8). Mae'r safleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach wedi eu dosbarthu ar hyd a lled Cymru. Amcangyfrifir fod yr arbedion blynyddol sy'n deillio o safleoedd nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio yn £362,000 gyda CNC yn amcangyfrif arbedion ariannol o ganlyniad i'r strategaeth adeiladu o £9.5 miliwn mewn 10 mlynedd

Ffigur 8 – Newidiadau o ran nifer safleoedd CNC ar ôl ei resymoli adeiladau hyd fis Hydref 2015




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

1.41 Fel rhan o resymoli, mae CNC wedi cyflwyno proses drylwyr ar gyfer arfarnu opsiynau ar gyfer safleoedd unigol gan ddefnyddio'r 'Model Pum Achos' fel yr amlinellwyd yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Mae enghraifft o'r arfarniad opsiynau ar gyfer safle'r gwasanaethau labordai yn Llanelli (Astudiaeth Achos 3).

| Astudiaeth Achos 3 – Arfarniad opsiynau ar gyfer gwasanaethau labordai |
| --- |
| Penderfynodd CNC nad oedd ei gyfleusterau presennol ar gyfer gwasanaethau labordai yn Llanelli bellach yn addas i'r diben oherwydd peryglon iechyd a diogelwch, ac roedd y potensial i ddatblygu gwasanaethau'n gyfyngedig dros ben.<br>Cynhaliodd CNC arfarniad opsiynau trylwyr ar gyfer y gwasanaeth gyda'r adroddiad arfarnu'n cynnwys yr achos dros newid, ystyriaeth o faterion economaidd lleol, swyddi, yr opsiynau wedi'u sgorio, ac arfarniad cost a phrosiect maith ar gyfer pob opsiwn. Cafodd pob un o'r opsiynau ar y rhestr fer ei werthuso drwy gwblhau achos busnes amlinellol  a oedd yn defnyddio prosesau Trysorlys EM. Mae hyn yn helpu i sicrhau gwerth am arian a phrosesau penderfynu cadarn.<br>Roedd y broses arfarnu opsiynau'n cynnwys grŵp busnes CNC yn cynnal cyfarfodydd chwarterol i gael adroddiadau cynnydd ac i drafod gwerth ychwanegol.<br>Amlygodd yr arfarniad opsiwn a ffefrid ym Mhrifysgol Abertawe, a ddewiswyd gan y Bwrdd Prosiect. Fodd bynnag, yn ystod negodiadau masnachol, gwelwyd nad oedd y safle ar gael. Cynhaliodd y Bwrdd Prosiect werthusiad arall manwl ar ddau safle a oedd wedi'u sgorio yn yr ail safle yn yr arfarniad gwreiddiol ac enwyd lleoliad arall ym Mhrifysgol Abertawe fel y lleoliad a ffefrid. Mae CNC yn gweithio gyda'r Brifysgol ac yn dal ar y trywydd iawn i symud i'r labordy newydd ym mis Medi 2016. |

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

1.42 Er bod CNC wedi gwneud cynnydd, mae galluogrwydd o fewn y tîm asedau corfforaethol i gyflawni'r strategaeth adeiladau wedi bod yn gyfyngedig. Mae galluogrwydd yn datblygu'n awr, gyda nifer fwy o staff yn gysylltiedig â rheoli asedau, gweithgor sydd wedi'i ailffurfio, a mwy o gyfrifoldeb wedi'i ddatganoli i reolwyr gweithredol ardal.

1.43 Mae cam dau'r strategaeth adeiladau yn ystod y cyfnod trawsnewid yn debygol o gynnwys materion mwy heriol a delio â safleoedd anos. Mae angen i ddull CNC gymryd golwg mwy tymor hir sy'n seiliedig ar anghenion CNC yn y dyfodol a chysylltu'n well â meysydd strategol o bwys yn y dyfodol fel cynllunio'r gweithlu. Mae uwch reolwyr yn cydnabod bod angen i'r sefydliad newid ei ffyrdd o weithio ac mae cynlluniau i edrych sut y gall CNC ddefnyddio gweithio ystwyth o fewn y sefydliad cyfan, a allai gynnig cyfleoedd pellach i resymoli.

1.44 Mae gan CNC ddata sylfaenol ar berfformiad asedau ei adeiladau ac mae'n deall llawer o'r safonau a dderbynnir gan ddiwydiant ar gyfer adeiladau. Mae'n olrhain arwynebedd mewnol net ei adeiladau, sydd wedi gostwng naw y cant er Ebrill 2013 yn erbyn targed o 14 y cant. Fodd bynnag mae prinder data manwl ynghylch y defnydd o adeiladau neu pa mor effeithiol yw CNC wrth resymoli ei gontractau rheoli cyfleusterau, ar wahân i gadw golwg ar arbedion a wneir ar adeiladau fel rhan o ddangosfwrdd perfformiad y Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol. Canfu ein harchwiliad ariannol o CNC ar gyfer 2013-14 broblemau gydag ansawdd a chywirdeb gwybodaeth a gedwir gan CNC yn gysylltiedig ag asedau, gyda gwahaniaethau rhwng cofnodion y tîm ystadau o dir sy'n eiddo iddo a Chofrestr Asedau Sefydlog yr adran gyllid. Fodd bynnag, nododd ein harchwiliad ariannol ar gyfer 2014-15 fod y rheolwyr wedi gweithredu'n gadarnhaol ar faterion yn ymwneud â gwirio asedau drwy gynnal ymarferiad gwirio manwl a rhoi sylw i ddiffygion mewn prosesau a pholisi.

## Mae CNC wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni arbedion ariannol a chyflawni buddiannau eraill a fwriadwyd ar adeg ei greu

1.45 Ym mis Tachwedd 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr achos busnes dros greu CNC, a oedd yn nodi'r arbedion ariannol a fwriadwyd a chostau un corff dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2023. Ym mis Gorffennaf 2013, ar ôl creu CNC, cytunodd Llywodraeth Cymru a CNC ar achos busnes diwygiedig. Roedd yr achos busnes diwygiedig hwn yn addasu proffil yr arbedion blynyddol disgwyliedig; fodd bynnag, roedd y targed ar gyfer cyfanswm yr arbedion yn y 10 mlynedd bron yn union yr un faint, sef £158 miliwn mewn termau arian parod. Mae'r buddiannau hyn yn cynnwys arbedion arian parod ac arbedion mesuradwy eraill sy'n deillio o fod yn un corff wedi'i symleiddio, lleihau dyblygu, symleiddio prosesau a sicrhau enillion o ran cynhyrchedd. Roedd cyfanswm y costau disgwyliedig yn £68.7 miliwn yn yr achos busnes gwreiddiol ac yn £66.0 miliwn yn yr achos busnes diwygiedig. Mae'r costau hyn yn cynnwys gwariant ar feysydd fel alinio tair set o systemau a pholisïau; alinio telerau ac amodau staff, yn enwedig cynnydd yng nghostau pensiynau; a brandio newydd a chyfathrebu. Mae hyn yn arwain at arbediad net o £92.0 miliwn mewn termau arian parod yn yr achos busnes hyd 2022-23.

1.46 Mae CNC wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni cyfanswm yr arbedion ariannol a fwriadwyd fel y'u nodwyd yn yr achos busnes diwygiedig (Ffigur 9). Mae CNC yn mesur arbedion wedi'u gwireddu mewn arian parod, ac arbedion wedi'u gwireddu nad ydynt yn arian parod[21]. Mae'r rhagamcan diweddaraf ym mis Medi 2015 yn dangos bod CNC wedi nodi arbedion gros o £0.8 miliwn yn 2013-14 a £6.7 miliwn yn 2014-15, ac mae'n rhagweld y bydd buddiannau yn yr arfaeth yn codi hyn i £17.7 miliwn y flwyddyn erbyn 2018-19. Am y cyfnod o 10 mlynedd hyd 2022-23, mae CNC ar y trywydd iawn gydag arbedion wedi'u gwireddu mewn arian parod, ond mae eto i nodi £15 miliwn o'r targed o £31 miliwn ar gyfer arbedion heb fod rhai arian parod. Mae CNC yn ffyddiog y bydd yn cyrraedd y targed ar gyfer arbedion nad ydynt yn arian parod drwy arbedion effeithlonrwydd drwy'r broses gwella prosiectau yn y rhaglen trawsnewid bresennol; fodd bynnag ni all CNC feintioli'r rhain yn fanwl eto. O ystyried bod y prosesau gwelliant parhaus eraill ar waith gan gynnwys Rhaglen Gwella Effeithlonrwydd a Chyflenwi Gwasanaeth sydd â'r nod o wella'r gwasanaeth wrth leihau gwariant (Blwch 3), mae arwyddion y bydd CNC yn cynyddu gwerth ei arbedion nad ydynt yn arian parod yn ystod y blynyddoedd nesaf. Y rhagamcan is hwn ar gyfer buddiannau wedi'u gwireddu nad ydynt yn arian parod yw'r prif reswm pam y mae cyfanswm yr arbediad net a ragwelir o £76.3 miliwn yn £15.8 miliwn yn is na ffigur yr achos busnes diwygiedig.

## Ffigur 9 – Rhagamcan o gyfanswm yr arbedion ariannol net, costau ac arbedion net dros y cyfnod o 10 mlynedd rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2023 mewn termau arian parod

| | Achos busnes[1] £ miliwn | Rhagolygon CNC £ miliwn |
|---|---|---|
| Arbedion wedi'u gwireddu mewn arian parod | 127.2 | 128.9 |
| Arbedion heb eu gwireddu mewn arian parod | 30.9 | 16.2 |
| Costau gros | -66.0 | -68.8 |
| Cyfanswm arbedion net | 92.1 | 76.3 |

Nodyn:

1 Daw'r ffigurau hyn o'r achos busnes diwygiedig, yr oedd Llywodraeth Cymru a CNC wedi cytuno arnynt fis Gorffennaf 2013. Roedd y proffil diwygiedig wedi ail-gyflunio'r arbedion a'r costau a ddisgwylid bob blwyddyn gyda'r arbedion gros a dargedwyd bron yn union yr un faint â chyfanswm costau ychydig yn llai.

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

21 Ystyr arbedion arian wedi'u gwireddu mewn arian parod yw arbedion o ran yr arian parod a gafodd ei wario, er enghraifft peidio â thalu am gymorth ariannol gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Ystyr arbedion wedi'u gwireddu nad ydynt yn arian parod yw pan fydd lefel y gwariant ddim yn gostwng ond bydd y gwerth sy'n deillio o'r gwariant yn cynyddu, er enghraifft, mae adleoli staff yn cynyddu cynhyrchedd, sy'n golygu bod modd gwneud mwy o waith am yr un gost.

**Blwch 3 – Rhaglen gwella effeithlonrwydd a chyflenwi gwasanaeth**

Nod y rhaglen gwella effeithlonrwydd a chyflenwi gwasanaeth yw sicrhau bod gan CNC raglen effeithlonrwydd ystyrlon, yn bennaf drwy gyfres o adolygiadau gwasanaeth wedi'u harwain gan fusnes a phrosiect effeithlonrwydd 'llwyddiant am lai'.


Amcanion y rhaglen yw:

- sicrhau bod yr holl adolygiadau gwasanaeth yn helpu i gyflawni rheolaeth adnoddau naturiol;
- sicrhau bod yr holl adolygiadau gwasanaeth yn arwain at well profiad i gwsmeriaid; a
- sicrhau bod yr holl adolygiadau gwasanaeth yn arwain at wasanaeth sy'n fwy fforddiadwy yn y tymor canolig (ymlaen i 2020).

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

1.47 Mae CNC wedi nodi costau creu o £38.7 miliwn yn ystod y tair blynedd rhwng 2012-13 a 2014-15 ac mae'n amcangyfrif costau hyd 2022-23 o £68.9 miliwn. Mae hyn £2.8 miliwn yn uwch na'r achos busnes diwygiedig. Mae Ffigur 10 yn dangos rhagamcan o ddosbarthiad costau a buddiannau fesul blwyddyn. Er bod costau'n is na'r hyn a ragwelwyd yn 2013-14, nid yw CNC yn disgwyl gweld gostyngiad mewn costau na chynnydd mewn buddiannau mor gyflym ag y rhagwelwyd yn wreiddiol o 2014-15 ymlaen. Mae hyn yn rhannol am na allai CNC adael rhai trefniadau etifeddiaeth mor gyflym ag y rhagwelwyd yn wreiddiol. Arweiniodd hyn at newid yn y proffil cost ac arbedion. Yn benodol, cymerodd negodiadau i wahanu oddi wrth ddarparwr TGCh Asiantaeth yr Amgylchedd Capgemini lawer mwy o amser na'r disgwyl sydd wedi golygu bod costau ymadael yn cael eu gwthio'n ôl a bod costau ychwanegol yn codi yn sgil cadw'r hen drefniadau am fwy o amser. Mae CNC yn cydnabod bod y raddfa a'r amser oedd ei angen ar gyfer ymadael â rhai o'r hen drefniadau yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn yr achos busnes.

Ffigur 10 – Amcangyfrif o ddosbarthiad fesul blwyddyn o fuddiannau a chostau creu CNC, 2012-13 hyd 2022-23




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

1.48 Er mwyn olrhain arbedion a buddiannau ehangach, mae gan CNC fframwaith buddiannau ar waith. Dangosodd adolygiad Gateway Rhagfyr 2013 o'r rhaglen trawsnewid (paragraff 1.18) nad oedd CNC, erbyn hynny, wedi cyflwyno strategaeth fuddiannau a chynllun gwireddu buddiannau, ac y byddai'n ddibynnol ar fesur gwaelodlinau a'r buddiannau a gyflawnwyd hyd yma'n ôl-weithredol. Roedd yn anodd olrhain buddiannau oherwydd er bod CNC yn gallu defnyddio llawer i ddata hanesyddol, nid oedd un system ariannol, ac roedd diffyg gwaelodlinau y cytunwyd arnynt. Yn hanner cyntaf 2014, gweithredodd CNC fframwaith mwy cadarn ar gyfer olrhain buddiannau ei greu, gan gynnwys cynllun a fframwaith gwireddu buddiannau. Yn awr mae gan bob cyfarwyddiaeth hyrwyddwr buddiannau sy'n coladu ac yn monitro buddiannau creu'r sefydliad ac arbedion effeithlonrwydd eraill. Mae swyddogion yn cofnodi'n fanwl y buddiannau a nodwyd gan gynnwys disgrifiad a'r rheswm dros y budd, unrhyw fuddiannau ansoddol a meintiol yn erbyn gwaelodlin, manylion am drefniadau'r corff etifeddiaeth blaenorol, cysylltiadau at ffynonellau tystiolaeth, a gwybodaeth ddefnyddiol arall fel risgiau neu wersi a ddysgwyd.

1.49 Ar ddiwedd y flwyddyn, mae adran gyllid CNC yn gwirio ac yn diwygio'r arbedion a'r costau ariannol a ganfuwyd drwy'r fframwaith buddiannau. Mae'r broses hon yn ystyried y costau gwirioneddol a wynebwyd gan bob cyfarwyddiaeth a pha newid mewn costau y gellir eu priodoli i greu CNC. Er enghraifft, gall y cofnod cyntaf o fudd ddefnyddio amcangyfrif o arbediad blynyddol mewn costau staff, nad yw'n cyfateb yn union i'r gwir arbediad mewn cost. Mae'r broses yn rhoi ffigurau mwy manwl ar gyfer arbedion, fodd bynnag, mae'n arwain at ddwy system ar gyfer cofnodi ac mewn rhai achosion, ar gyfer cofnodi buddiannau. Mae CNC wedi dweud ei fod yn gobeithio symud at un system gofnodi, fwy integredig.

1.50 Mae'r achos busnes dros greu CNC yn cyfuno buddiannau a nodwyd gan ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â gweithgareddau gweithredol a gwasanaethau corfforaethol. Sefydlwyd y ffrydiau gwaith i ddibenion yr achos busnes ac nid oes cydberthynas rhyngddynt â strwythur sefydliadol cyfredol CNC, na sut y mae CNC yn cofnodi'r buddiannau. O ganlyniad, nid yw CNC yn olrhain buddiannau yn erbyn y ffrydiau gwaith hyn ac nid ydym wedi ymdrechu i gymharu a yw CNC yn cyflawni'r buddiannau disgwyliedig fesul ffrydiau gwaith.

1.51 Mae CNC yn olrhain yr holl fuddiannau ar hyn o bryd, gan gynnwys rhai heb arbediadau ariannol, a'r rhai hynny sydd â chost ariannol ond sy'n dangos buddiannau anariannol, fel gweithio mwy integredig neu gyfathrebu gwell â defnyddwyr gwasanaeth. Mae enghreifftiau o'r buddiannau a nodwyd hyd yma gan CNC sy'n dangos buddiannau arian parod, rhai nad ydynt yn rhai arian parod a rhai anariannol i'w gweld yn Ffigur 11. Fodd bynnag mae CNC yn teimlo ei bod yn fwyfwy anodd, ac yn fwy o draul ar adnoddau, gwahanu'r buddiannau sy'n deillio'n benodol o greu CNC oddi wrth y camau gweithredu sy'n angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â phwysau pellach o ran y gyllideb.

Ffigur 11 – Enghreifftiau o fuddiannau CNC rhwng 2013-14 a 2022-23

| Enw'r budd | Disgrifiad | Cyfanswm yr arbediad arian parod wedi'i wireddu a ragwelir mewn 10 mlynedd | Cyfanswm yr arbediad nad yw'n arian parod wedi'i wireddu a ragwelir mewn 10 mlynedd |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Adnoddau Dynol a Chyllid | Trosglwyddo tair system AD a Chyllid i un system gydag un tîm Gwasanaeth Cymorth Busnes, sydd wedi arwain at ostyngiad i 31 swydd gyfwerth ag amser llawn. | £13.3 miliwn | – |
| Casglu samplau | Proses gasglu wedi'i symleiddio a systemau TG integredig sy'n arwain at ganlyniadau cyflymach a chynllunio teithiau mwy effeithlon sy'n lleihau nifer y milltiroedd a yrrir ac sy'n gwella cynhyrchiant. | £0.7 miliwn | £2.3 miliwn |
| Gwasanaeth monitro ansawdd aer mewn argyfwng | Gwasanaeth a arferai gael ei ddarparu dan gontract fframwaith Asiantaeth yr Amgylchedd gyda chontractwr allanol ond sy'n awr yn cael ei gyflenwi'n fewnol gan arbed costau. | £0.3 miliwn | – |
| Dull Integredig Coedwig Niwbwrch | Creu un tîm prosiect i reoli llain o dir sy'n cynnwys traeth ymdrochi dynodedig, Gwarchodfa Natur Genedlaethol, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a choedwig. | Dim buddiannau ariannol wedi'u meintioli; fodd bynnag, mae dull mwy cyson o ddelio â materion a datblygu cysylltiadau ychwanegol â rhanddeiliaid, gan gynnwys cylchlythyr a sesiynau galw i mewn. | |

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

## Rhan 2

Mae CNC wedi dysgu yn sgil y cynnydd a wnaethpwyd a’r heriau a wynebwyd ac mae’n awr yn bwrw ymlaen â rhaglen newid fwy uchelgeisiol a chynhwysfawr, sydd ei hangen i drawsnewid ei hun ar gyfer y dyfodol ac i ddelio â newidiadau deddfwriaethol a phwysau ar adnoddau



2.1 Mae'r adran hon yn edrych ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer cam nesaf proses newid CNC, y cyfnod trawsnewid; a'r prif heriau mewnol ac allanol sy'n parhau.

## Er bod rhaglen pontio CNC yn eang, roedd cyfyngiadau a therfynau y mae CNC yn awr wedi rhoi sylw iddynt yn ei raglen trawsnewid

2.2 Er bod rhaglen trawsnewid CNC yn un eang (paragraff 1.18), roedd llwyddiant y rhaglen yn bennaf yn golygu rhoi'r prosesau a'r strategaethau gofynnol ar waith, gyda thueddiad i gyflawni'r nodau hawddaf yn gyntaf. Rhoddodd CNC lai o bwyslais ar agweddau mwy anodd a thymor hir fel newid diwylliant a rheoli pobl. Gellid priodoli hyn yn bennaf i bwysau amser. Mae CNC wedi bod yn agored a gonest am y gwaith a gyflwynwyd hyd yma a'r cyfyngiadau yn yr hyn mae wedi'i weithredu eisoes, gan gydnabod yr hoffai fod wedi cyflawni mwy pe bai mwy o adnoddau ar gael. Mae uwch staff wedi dangos lefelau uchel o ymwybyddiaeth o'r prif faterion a'r trefniadau sydd eu hangen i symud ymlaen i gam nesaf datblygiad CNC.

2.3 Symudodd CNC ymlaen o'r cyfnod pontio i raglen trawsnewid ym mis Ebrill 2015. Argymhellodd yr adolygiad Gateway o'r rhaglen trawsnewid ym mis Rhagfyr 2013 y byddai'n fwy effeithiol i drawsnewid y sefydliad drwy fabwysiadu dull rheoli portffolio mwy ffurfiol o gofio bod y pontio a'r trawsnewid wedi cynnwys nifer o raglenni. Mae CNC wedi ymgorffori'r dull hwn yn ei raglen trawsnewid. Mae'r newid o'r rhaglen pontio i raglen trawsnewid wedi bod yn broses drefnus sydd wedi'i rheoli'n dda.

2.4 Mae rhaglen trawsnewid CNC yn dangos ei fod wedi rhoi blaenoriaeth i feysydd a oedd wedi cael llai o sylw cyn hyn, fel rheoli pobl, a'i fod wedi canolbwyntio ar gyflawni gweledigaeth a diben CNC. Mae CNC wedi cynhyrchu adroddiad[22] ar ddwy flynedd gyntaf ei fodolaeth ac mae wedi dysgu yn sgil y profiad a gafwyd yn ystod y cyfnod pontio i sefydlu'r rhaglen trawsnewid. Mae CNC hefyd wedi parhau i ddefnyddio arferion da o ffynonellau eraill fel sail i'w raglen trawsnewid. Mae CNC yn cydweithio â thîm Cyfnewid Arferion Da Swyddfa Archwilio Cymru i hwyluso'r broses o rannu ei wybodaeth a'i brofiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

22 **Creating the Foundation for Delivery – Transition Report**, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tachwedd 2015.

## Mae CNC wedi rhoi mwy o bwyslais ar reoli pobl, er bod gwerthuso swyddi'n parhau'n risg allweddol

2.5 Yn ystod ei gyfnod trawsnewid, mae CNC wedi rheoli nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig â staff fel sail i'w ymagwedd at y gweithlu a rheoli pobl, gan gynnwys:

- trosglwyddo TUPE staff o'r cyrff etifeddiaeth;
- dau gynllun diswyddo gwirfoddol;
- cysoni telerau ac amodau staff;
- un polisi cyflog; a
- Strategaeth Lles, Iechyd a Diogelwch.

2.6 Ym mis Ebrill 2015, rhoddodd CNC system rheoli perfformiad newydd ar waith i gymryd lle trefniadau etifeddiaeth. Mae'r system newydd yn cynnwys cwblhau Cynllun Perfformiad a Datblygiad i bennu amcanion perfformiad ac i ganfod anghenion hyfforddi a datblygiad. Ar ddiwedd mis Hydref 2015, roedd 1,425 o staff wedi cwblhau cynllun ac roedd hynny wedi'i gofnodi yn y system gwybodaeth adnoddau dynol, a oedd yn cyfateb i 73 y cant o'r cyflogeion parhaol. Mae CNC yn disgwyl y bydd rhagor o staff wedi cwblhau cynlluniau ond nad ydynt ar y system eto. Mae cyfarwyddiaethau wedi coladu dros 2,100 o ofynion hyfforddiant a nodwyd yn y cynlluniau, yn ychwanegol at dros 2,000 o geisiadau am hyfforddiant a gyflwynwyd yn flaenorol fel rhan o gyflwyno'r Strategaeth Lles, Iechyd a Diogelwch. Mae CNC yn trefnu cyrsiau hyfforddi ac yn datblygu rhaglen ddysgu, sy'n cynnwys, fel blaenoriaeth, rhaglen datblygu rheolwyr.

2.7 Er Ebrill 2015, mae CNC wedi rhoi mwy o bwyslais ar reoli pobl, ac un o bum prif elfen y rhaglen trawsnewid yw 'Datblygu ein Pobl a'n Timau'. Mae ffrydiau gwaith o fewn y rhaglen hon yn cynnwys: gwerthuso swyddi; datblygu a gweithredu amrywiol bolisïau pobl; rheoli arweinyddiaeth a galluogrwydd; trawsnewid newid diwylliant portffolios; dysgu a datblygiad; a chydraddoldeb ac amrywiaeth (Astudiaeth Achos 4).

**Astudiaeth Achos 4 – Camau cyfredol CNC a chynlluniau'r dyfodol ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Ers ei greu, mae CNC wedi rhoi pwyslais ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae CNC yn rhedeg fforwm cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae wedi cyhoeddi dau adroddiad blynyddol ar ei gyflawniadau o ran cydraddoldeb. Mae CNC wedi cymryd rhan ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yn 2014 a 2015, gan wella ei sgôr o flwyddyn i flwyddyn.

Mae CNC yn ystyried yr angen am Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn achos ei holl bolisïau a phapurau'r Bwrdd.

Ym mis Ebrill 2015, cyhoeddodd CNC Gynllun Cydraddoldeb Strategol am y cyfnod 2015 hyd 2019. Mae amcanion cynllun cydraddoldeb CNC yn deillio o'r egwyddorion 'Da ar Gyfer' yr amgylchedd, y sefydliad, gwybodaeth, busnes a phobl. Mae'r amcanion yn eglur o ran pennu safonau a disgwyliadau clir wrth gyflenwi gwasanaethau, drwy ddeall sut y mae cymunedau'n cael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir ganddo, ac unrhyw rwystrau y mae cwsmeriaid CNC yn eu hwynebu.

O fewn y rhaglen trawsnewid, mae'r ffrwd waith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cynnwys camau i:

- weithredu'r cynllun cydraddoldeb strategol ac i adrodd yn chwarterol ar gynnydd i'r dangosfwrdd corfforaethol;
- creu rhwydweithiau â phartneriaid allanol i rannu arferion da;
- ymwreiddio cydraddoldeb yn y canllaw caffael; a
- gwella hunan ddatgeliad data cydraddoldeb ac amrywiaeth unigolion drwy MyNRW fel sail ar gyfer adrodd a chynlluniau'r dyfodol.

Mae CNC yn anelu at weithlu sy'n fwy cynrychioliadol o'r nodweddion gwarchodedig ac i ddatblygu diwylliant lle mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu ymddwyn yn naturiol yn eu gwaith a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

2.8 Mae rhan o'r rhaglen bobl yn cynnwys datblygu strategaeth Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl ffurfiol. Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd CNC 'Strategaeth Pobl' a fyddai'n weithredol am y cyfnod 2014 hyd 2017 gyda chysylltiadau â'r cynllun corfforaethol a'r cynllun busnes. Mae CNC yn bwriadu i'r strategaeth newydd roi sylw i agweddau fel cynllunio'r gweithlu, cynllunio ar gyfer olyniaeth, a rheoli talent. Mae CNC yn gobeithio cyhoeddi'r strategaeth hon erbyn mis Ebrill 2016. Ym mis Mai a Gorffennaf 2015, cynhaliodd yr uwch dîm rheoli ddau weithdy ar reoli'r gweithlu, gyda'r nod o gynhyrchu cynllun gweithlu ar wahân sydd wedi'i gysylltu â blaenoriaethau allweddol a chyflenwi yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn sail i adolygiadau strategol o'r busnes a fydd, yn eu tro, yn llywio cynllun y gweithlu.

2.9 Mae CNC yn y broses o gynnal ymarferiad gwerthuso swyddi sylweddol. Mae CNC wedi rhoi contract i gwmni allanol i helpu gyda'r ymarferiad drwy ddatblygu methodoleg paru swyddi a phroffiliau generig o rolau. Mae gan CNC berthynas ragweithiol a chynhyrchiol â'r unedau llafur perthnasol, a dylai hynny helpu'r broses o werthuso swyddi ac mae hefyd yn datblygu cynllun cyfathrebu â staff i reoli disgwyliadau staff ac i liniaru'r risgiau i forâl sy'n anhepgor wrth werthuso swyddi. Mae CNC yn gobeithio cwblhau'r gwerthusiad swyddi erbyn Chwefror 2016. Mae hon yn amserlen dynn ac mae rhai elfennau a oedd wedi'u cynnwys yn y cynllun prosiect gwreiddiol ar gyfer ei gyflawni eisoes wedi llithro'n ôl, er bod y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith yr un fath o hyd. Mae'n bwysig bod y dull gwerthuso swydd yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion busnes CNC yn y dyfodol. Mae perygl na fydd swydd ddisgrifiadau a dyluniad swyddi a fydd yn deillio o'r ymarfer gwerthuso swydd yn cyd-fynd â threfniadau cyflenwi gwasanaeth newydd, datblygu sefydliadol, a hyfforddiant a datblygiad staff; yn benodol oherwydd bod CNC yn bwriadu cyflawni'r ymarfer gwerthuso swydd cyn i'r strategaeth Rheoli Pobl a Datblygu Sefydliadol gael ei rhoi ar waith.

2.10 Mae CNC yn cynhyrchu data cynhwysfawr ar broffil ei weithlu, gan gynnwys yn ôl oedran, rhyw, anabledd a graddfa gyflog. Mae CNC yn ystyried y data hwn fel rhan o'i waith cynllunio'r gweithlu. Dangosodd data a gyflwynwyd i'r gweithdy cynllunio'r gweithlu ym mis Mai 2015 fod 14 y cant o staff yn 55 oed neu hŷn a bod 14 y cant arall rhwng 50 a 55 oed. Fel rhan o weithdai mis Mai a Gorffennaf, bu pob cyfarwyddiaeth yn ystyried cryfderau a gwendidau eu gweithlu ym mhroffil oedran ei 'arbenigwyr' gan fod nifer o staff yn agos at ymddeol, sy'n golygu y gellid colli arbenigedd. Nododd sawl cyfarwyddiaeth ei bod yn chwilio am ffyrdd gwell o gynllunio ar gyfer olyniaeth.

2.11 Roedd CNC wedi profi problemau gyda chywirdeb data MyNRW, gan gynnwys cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch, ond mae wrthi'n datblygu ffordd well o gasglu data drwy'r system MyNRW. Yn ddiweddar mae wedi datblygu data ar nifer y swyddi gwag yn y sefydliad, ac mae'n ceisio gwella'r data ar gyflog cyfartal yn dilyn yr ymarfer gwerthuso swydd. Erbyn hyn mae'r tîm gweithredol yn cael data ynghylch y gweithlu yn rheolaidd, fel swyddi gwag ac arfarniadau, ac mae'r data a roddir i'r Bwrdd yn canolbwyntio ar faterion lles ac iechyd a diogelwch.

## Mae CNC yn gwneud gwaith i ymgysylltu'n well â staff a rhanddeiliaid, yn dilyn tystiolaeth o wendid yn ystod y cyfnod pontio

2.12 Yn ystod ei flwyddyn gyntaf o weithredu, bu CNC yn cymryd rhan mewn deialog uniongyrchol â staff, gan gynnwys rheolwyr â'r tîm uwch reolwyr, i drafod newid a phontio, a hefyd cyhoeddodd amrywiaeth o ohebiaeth fewnol. Yn ei adolygiad ei hun o'r rhaglen bontio, roedd CNC yn cydnabod bod dealltwriaeth ehangach o'r broses newid yn wael; roedd cyfathrebu cyfyngedig ar yr hyn sy'n sbarduno newid a'r llwyddiannau a gyflawnwyd; ac roedd yn anodd cael cydbwysedd priodol gyda'r hyn oedd yn cael ei gyfleu.

2.13 Ym mis Hydref 2014, lansiodd CNC strategaeth gyfathrebu tair blynedd. Fel rhan o'r strategaeth hon, er mwyn cyfleu ei weledigaeth a'i raglen drawsnewid ar gyfer y dyfodol i staff a rhanddeiliaid ehangach, datblygodd CNC 'fap', a lansiwyd ym mis Ionawr 2015. Mae'r map yn disgrifio gweledigaeth CNC ar gyfer trawsnewid; gwerthoedd ac ymddygiad; ac amserlen ar gyfer digwyddiadau allweddol rhwng 2013 a 2020. Er mai'r nod oedd egluro rhai o'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r broses, oherwydd pwysau amser, lansiodd CNC y map cyn bod manylion y prosiectau trawsnewid wedi'u llunio a'u cwblhau. Mae CNC wedi rhannu manylion y prosiectau trawsnewid â'r staff wrth iddynt ddod ar gael.

2.14 Cynhaliodd CNC ei Arolwg Pobl cyntaf ym mis Chwefror 2015 er mwyn goleuo'i broses trawsnewid, i ganfod barn staff ac i gael sylfaen ar gyfer arolygiadau yn y dyfodol. Roedd y gyfradd ymateb yn 58 y cant ac roedd y canlyniadau'n rhai cymysg. Y prif feysydd gyda'r ymatebion lleiaf positif oedd arweinyddiaeth a newid; cyflog a buddiannau; dysgu a datblygiad; ac a fyddai'r sefydliad yn gweithredu ar ganlyniadau'r arolwg. Mae rhai o'r meysydd hyn yn adlewyrchu maint ac arwyddocâd y newidiadau yn CNC, a'r gwendidau wrth gyfleu gwybodaeth am y rhaglen. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi rhoi ateb positif i gwestiynau ar ddiwylliant sefydliadol, amcanion a diben sefydliadol, a'u gwaith (Ffigur 12). Mae CNC yn cyflwyno cynllun gweithredu i roi sylw i'r materion allweddol, sy'n cynnwys cyfathrebu.

Ffigur 12 – Yr atebion mwyaf a lleiaf positif i gwestiynau Arolwg Pobl CNC, Chwefror 2015

| Cwestiynau’r Arolwg | Canran positif |
|---|---|
| **Cytunon’n fwyaf** | |
| Mae gen i ddiddordeb yn fy ngwaith | 94 |
| Mae gen i ffrindiau gwirioneddol dda yn y gwaith. | 87 |
| Maent yn ymddiried ynof i wneud fy ngwaith yn effeithiol.<br>Mae gen i’r sgiliau sydd eu hangen arnaf i wneud fy ngwaith yn effeithiol. | 86 |
| Mae fy ngwaith yn cynnig digon o her i mi.<br>Mae fy rheolwr yn barod i ystyried fy mywyd y tu allan i’r gwaith.<br>Mae’r bobl yn fy nhîm yn cael eu hannog i feddwl am ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau.<br>Rwyf yn cael fy nhrin â pharch gan y bobl rwyf yn gweithio â hwy. | 85 |
| **Cytuno’n lleiaf** | |
| Rwyf yn teimlo bod y sefydliad yn ei gyfanrwydd yn cael ei reoli’n dda. | 20 |
| Pan fydd newidiadau’n cael eu gwneud yn y sefydliad, maent fel arfer yn newidiadau er gwell. | 17 |
| Rwyf yn credu bod gwahanol rannau’r sefydliad yn gweithio’n dda â’i gilydd. | 15 |
| Rwyf yn teimlo bod newid yn cael ei reoli’n dda yn y sefydliad. | 14 |
| Mae cyflymder newid yn CNC yn cael ei fonitro a’i addasu’n ôl yr angen. | 12 |

Ffynhonnell: Canlyniadau arolwg staff Cyfoeth Naturiol Cymru

2.15 Mae CNC yn gweithio ar y ffordd mae'n cyfathrebu â staff i wella ymgysylltiad a dealltwriaeth staff o'r map. Mae CNC yn cynnal gweithdai a sioeau teithiol ar wahanol bynciau, yn annog uwch staff i gwrdd â staff wrth eu gwaith, i ddefnyddio Yammer, ac mae'n cynllunio Arolwg Pobl newydd o gwmpas mis Chwefror 2016. Mae pob cyfarwyddiaeth wedi datblygu ei chynllun ei hun ac yn ei roi ar waith i wella ymgysylltu a materion pwysig eraill, yn dilyn yr arolwg staff.

2.16 Mae CNC hefyd yn cryfhau ei ymgysylltiad â rhanddeiliaid allanol. Mae CNC yn cadw rhestr o'r holl randdeiliaid allanol, gydag unigolion yn gyfrifol am gyfrifon ar gyfer rhanddeiliaid allweddol. Awgrymodd tystiolaeth o graffu blynyddol 2015 y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwy fod peth anghysonderau yn y ffordd yr oedd yn cyfathrebu â rhanddeiliaid. Mewn ymateb, dywedodd CNC ei fod yn 'dwysau ein hymdrechion i wella cyfathrebu', gan gynnwys:

- cysylltu â'r holl randdeiliaid a roddodd dystiolaeth i sicrhau bod ganddynt gysylltiadau priodol o fewn CNC;
- cynnal gweithdai â grwpiau pysgota i drafod ymhellach gynigion ar gyfer deorfeydd; ac
- ymchwilio i'r opsiynau gorau ar asesu sut y mae cyngor yn cael ei dderbyn, pa mor effeithiol yw'r cyngor hwnnw; a beth yw barn cwsmeriaid am y cyngor a'r gwasanaeth er mwyn sicrhau gwelliant pellach.

2.17 Mae CNC wedi gwella ei ganolfan alwadau i gwsmeriaid a'r ffurflenni adborth i'r wefan er mwyn gallu ymateb yn well i ymholiadau gan y cyhoedd. Canfu adroddiad Mehefin 2015 y Swyddfa Rheoleiddio Gwell ar reoleiddio gwell fod CNC yn cydnabod gwerth ymgysylltu a'i fod wedi cyflwyno amrywiaeth o fecanweithiau i sicrhau bod y sawl maent yn eu rheoleiddio neu sy'n cael eu heffeithio gan reoleiddio'n cael y cyfle i rannu eu barn. Fodd bynnag, dywedwyd y gellid gwneud mwy o waith ar wefan CNC i'w gwneud yn well i fusnesau. Mae CNC eisoes wedi dechrau trefnu grwpiau ffocws ar ymgysylltu â busnes, gyda'r posibilrwydd o greu adran ar wahân ar gyfer busnesau ar ei wefan.

## Mae CNC yn cymryd camau i roi sylw i'r gwendidau a nodwyd yn y ffordd mae'n rheoli risgiau, caffael a threfniadau grantiau

2.18 Mae gan CNC drefniadau rheoli risg sylfaenol ar waith, ac sy'n cael eu datblygu. Cymeradwyodd Bwrdd CNC bolisi rheoli risg ym mis Hydref 2014. Un o'r prif nodau yw bod rheoli risg yn rhan o reolaeth brif ffrwd. Tan fis Medi 2015, roedd CNC yn cadw cofrestr risg weithredol gyda chroes gyfeiriadau at ganlyniadau yn y Cynllun Corfforaethol. Bu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn trafod hyn fel eitem sefydlog ym mhob cyfarfod. Ym mis Medi 2014, gofynnodd y Pwyllgor am gronfa risg strategol i ystyried y risgiau rheolaeth amgylcheddol ac adnoddau naturiol a'r heriau a all effeithio ar waith CNC. Aeth y gwaith hwn heibio targed y Pwyllgor ar gyfer cwblhau'r gwaith ond arweiniodd at greu un gofrestr risg gorfforaethol ym mis Medi 2015.

2.19 Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd archwiliad mewnol CNC sicrwydd cyfyngedig[23] ar reoli risg. Defnyddiodd yr archwiliad Fframwaith Asesu Rheoli Risg Trysorlys EM, sy'n cynhyrchu sgôr rhwng lefel un a lefel pump[24]. Canfu'r adroddiad mai'r sgôr cyffredinol ar gyfer CNC oedd lefel un, gyda pheth cynnydd da i lefel dau. Dywedodd hefyd fod gan CNC 'ymagwedd resymol tuag at ystyried risg yn ei drefniadau ar gyfer cyflenwi a phenderfyniadau' ond nad oedd y prosesau risg allweddol wedi ymwreiddio eto. Roedd rhai o brif argymhellion yr adroddiad yn cynnwys:

- sefydlu, cyfleu a chadw canllaw a gweithdrefnau rheoli risg sy'n gysylltiedig â pholisi rheoli risg;
- trefnu bod hyfforddiant mewn rheoli risg yn cael ei drefnu ar gyfer staff, gan gynnwys uwch reolwyr;
- cynnwys rheoli risg fel gofyniad swyddi, prosesau cynefino ac asesiadau perfformiad;
- sicrhau bod rheoli risg yn ymwreiddio ymhellach yn y broses benderfynu o dan lefel y Bwrdd a'r tîm Gweithredol; a
- phenderfynu ar lefel y Bwrdd pa lefel o aeddfedrwydd risg ddylai'r sefydliad ymgyrraedd ati a chynnal dadansoddiad o fylchau gyda chamau wedi'u nodi i gyrraedd y lefel y cytunwyd arni.

2.20 Fel rhan o'r cyfnod trawsnewid, mae CNC wedi cydnabod potensial caffael effeithiol i arbed arian ac i fod yn fwy effeithlon, yn ogystal ag i gyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol. Ar 1 Ebrill 2013, cafodd staff caffael wedi'u lleoli yng Nghymru a oedd yn gweithio i'r cyrff etifeddiaeth eu trosglwyddo i CNC. Roedd lefelau profiad y staff yn amrywiol ond oherwydd y ffordd roedd swyddogaethau caffael y cyrff etifeddiaeth wedi eu sefydlu nid oedd ganddynt brofiad uniongyrchol o gaffael yr holl ystod o nwyddau a gwasanaethau a oedd eu hangen ar CNC. Ar y dechrau roedd y staff hyn yn gweithio mewn ffyrdd a oedd yn defnyddio systemau etifeddiaeth. Ar ôl recriwtio Pennaeth Caffael newydd ym mis Hydref 2013, ffurfiodd CNC 'Dîm Caffael CNC', sydd wedi defnyddio'r system MyNRW fel ffynhonnell ganolog o ddata ynghylch gwariant a gwybodaeth rheolwyr. Mae swyddogion CNC yn teimlo bod lefelau staffio, sgiliau a phrofiad o fewn y tîm caffael wedi gwella'n sylweddol.

23 Lefel cyfyngedig o sicrwydd yw'r lefel ail isaf o sicrwydd allan o bedwar sgôr posibl, ac fe'i diffinnir fel 'mae gwendidau sylweddol yn y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth sy'n golygu y gallai fod yn annigonol ac aneffeithiol'.
24 Lefel 1 yw'r sgôr isaf lle mae tystiolaeth bod gan y sefydliad ymwybyddiaeth a dealltwriaeth; mae'r sgôr uchaf, Lefel 5, yn cyfeirio at sefydliad sydd â galluogrwydd rhagorol.

2.21 Ym mis Tachwedd 2013, cynhaliodd CNC hunan asesiad o'i swyddogaeth caffael gan ddefnyddio Model Aeddfedrwydd Caffael Llywodraeth Cymru, gan sgorio 0.39 allan o bedwar ('ddim yn cydymffurfio'). Y mannau gyda'r sgoriau isaf yn yr asesiad oedd rheoli contractau a chyflenwyr, a rheoli perfformiad; ac nid oedd dim un o'r wyth maes a aseswyd wedi sgorio'n uwch nag un ('datblygu tuag at gydymffurfio'). Roedd CNC o'r farn mai rhai o'r prif resymau wrth wraidd y sgôr isel oedd diffyg dull cydlynol ar draws y sefydliad; nid oedd meysydd ymarfer da'n cael eu gweithredu'n gyson ar draws y sefydliad; ac nid oedd llawer o alinio â Datganiad Polisi Caffael Cymru sy'n sail i'r model aeddfedrwydd. Roedd swyddogion CNC hefyd o'r farn, o gofio bod y model aeddfedrwydd yn asesu pa mor effeithiol yw'r sefydliad wrth ddefnyddio caffael i helpu i gyflawni ei amcanion corfforaethol, byddai'n anodd i unrhyw sefydliad newydd gyflawni hyn yn ei ddyddiau cynnar.

2.22 Yn dilyn ei hunan asesiad, rhoddodd CNC y Rhaglen Newid Caffael ar waith, a chynhyrchwyd strategaeth gaffael ar gyfer 2015 hyd 2017 (Blwch 4). Y prif nodau wrth wraidd y strategaeth oedd hybu effeithlonrwydd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r strategaeth gaffael yn ymgorffori camau penodol gyda'r nod o gael o leiaf dau fel sgôr model aeddfedrwydd (yn cydymffurfio). Yn ddiweddar diwygiodd Llywodraeth Cymru ei model aeddfedrwydd, yn dilyn cyhoeddi Datganiad Polisi Caffael wedi'i ddiweddaru ym mis Mehefin 2015, a chynhyrchodd becyn cymorth asesu wedi'i ddiweddaru. Mae CNC yn cynnal asesiad peilot i brofi'r model newydd, a fydd yn rhoi'r gallu iddo asesu unrhyw gynnydd yn fuan. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn y broses o gontractio trydydd parti i gynnal asesiad annibynnol ffurfiol o swyddogaeth caffael CNC erbyn diwedd mis Mawrth 2016 fel rhan o'i raglen ehangach o wiriadau ffitrwydd y sector cyhoeddus. Ar ôl yr asesiadau hyn, mae CNC yn disgwyl edrych ar ei Gynllun Gwella, ac ar y cyd â Llywodraeth Cymru, mynd ati i lunio ei strategaeth gaffael ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2022.

**Blwch 4 – Strategaeth Gaffael CNC**

Gweledigaeth CNC ar gyfer caffael yw sicrhau 'mai dim ond nwyddau, gwaith neu wasanaethau y mae eu gwir angen yr ydym yn eu prynu, i gael y gwerth gorau am arian, er mwyn optimeiddio'r effeithiau ar yr amgylchedd, ar bobl ac ar yr economi leol'.

Amcanion y strategaeth gaffael a'i chynllun gwella cysylltiedig yw:

- datblygu dull strategol i reoli caffael ar draws CNC;
- datblygu proses gyffredin, gorfforaethol ar gyfer cyrchu strategol, datblygu cysylltiadau â chyflenwyr, adrodd ar berfformiad a rheoli contractau;
- hybu effeithlonrwydd, lleihau costau a chyflawni buddiannau ansoddol ar draws CNC;
- sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaethau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol;
- gwella arweinyddiaeth, llywodraethu a sgiliau o fewn y tîm caffael;
- rhoi mwy o gyfle i gyflenwyr lleol a BBaChau i gyfranogi drwy dynnu sylw at ein cynlluniau caffael a chyfleoedd i gyfranogi; a
- chynyddu arloesi, cynaliadwyedd a rheoli adnoddau naturiol drwy ein gweithgarwch caffael.

Mae'r strategaeth gaffael yn amlinellu blaenoriaethau a chamau yn erbyn pedwar maes allweddol:

1 Datblygiad – sicrhau bod y tîm caffael ac eraill sy'n gysylltiedig â gweithgarwch caffael, yn meddu ar y gallu a'r galluogrwydd gofynnol i ddarparu arbenigedd caffael a chynghori; ac i reoli cyflenwyr.

2 Ymgysylltu – chwalu rhwystrau rhag gweithio â BBaChau, busnesau cymdeithasol a mentrau mwy; sicrhau bod prosesau caffael yn agored a thryloyw; ac ymgysylltu â staff i ddeall a rheoli eu defnydd o adnoddau.

3 Effeithlonrwydd a gwerth am arian – cyflawni gwerth am arian bob amser a chyflawni arbedion a buddiannau drwy well adrodd a monitro; optimeiddio perfformiad cyflenwyr allweddol; a lleihau gwastraff.

4 Llywodraethu – gwella'r cydbwysedd rhwng cyflenwi a throsolwg drwy sefydlu prosesau corfforaethol priodol a rheoli cyflenwyr allweddol yn well.

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

2.23 Mae CNC yn cryfhau ei drefniadau ar gyfer dyfarnu grantiau i drydydd partïon er mwyn helpu i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni. Yn y gorffennol roedd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru bwerau statudol i ddosbarthu grantiau, gyda chyllid grant cyfyngedig gan y ddau gorff etifeddiaeth arall. Daeth rownd olaf grantiau Cyngor Cefn Gwlad Cymru i ben ym mis Mawrth 2015 ac mae CNC wedi rheoli dwy rownd o gyllid grant ers ei greu ar gyfer grantiau'n cychwyn ym mis Ebrill 2015 ac Ebrill 2016. Y cyfanswm sydd wedi'i ymrwymo hyd yn hyn yw tua £9 miliwn. Mae CNC yn disgwyl rhedeg rownd arall yn 2016 ar gyfer grantiau a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2017.

2.24 Un cynllun grant a arferai gael ei redeg gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru oedd y prosiect Cymunedau a Natur, a oedd yn dosbarthu £14.5 miliwn o arian Ewropeaidd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a chronfeydd eraill o'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Cymerodd CNC y cyfrifoldeb am reoli'r prosiect hwn ar y diwrnod breinio tan y diwrnod cau ar 31 Awst 2014. Roedd y prosiect yn destun nifer o adolygiadau, gan gynnwys archwiliad gan Swyddfa Cyllid Llywodraeth Cymru a chanfuwyd gwendidau mewn rheoli prosiectau a rheolaethau yn y cyfnod cyn creu CNC. Mae CNC wedi newid ei brosesau er mwyn rhoi sylw i argymhellion yr adolygiad a'r gwersi a ddysgwyd yn sgil adolygiadau eraill.

2.25 Mae CNC yn eglur ynglŷn â'i awydd i fod yn sefydliad cyllido ac mae adborth a gafodd CNC gan bartneriaid allanol ac ymarferwyr mewnol wedi dangos bod gwerth mawr yn cael ei roi ar weithio mewn partneriaeth gan bawb dan sylw. Fodd bynnag, mae CNC yn cydnabod bod rownd un cyllid grant CNC wedi cael ei rhuthro a bod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi mynegi rhai pryderon am brosesau grant yn ei waith craffu yn 2015. Mae CNC yn hyderus ei fod wedi delio â'r pryderon hyn yn yr ail rownd ac mae wedi gwella prosesau ar gyfer partneriaid presennol rownd un. Er enghraifft, mae'r broses ymgeisio ar gyfer rownd dau yn fwy tryloyw, gyda gwell gwybodaeth yn cael ei rhoi ar feini prawf asesu a threfniadau llywodraethu; cysylltiadau mwy eglur rhwng dyfarnu grantiau ac amcanion corfforaethol; a lansiad digidol cynharach. Mae CNC yn eglur ynglŷn â'r risg na fydd partneriaid yn cyflawni ond mae'n lliniaru hyn drwy ddiwydrwydd dyladwy a phrosesau monitro. Fodd bynnag, mae monitro grantiau a ddyfarnwyd yn rownd un yn digwydd o dan reolau'r hen Gyngor Cefn Gwlad Cymru, sy'n cael eu diweddaru gan CNC ar hyn o bryd i ateb ei anghenion. Mae CNC a Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd sy'n rhoi cyfle i drafod gwariant grantiau ac i fonitro grantiau. Mae tîm gwella busnes CNC hefyd yn adolygu ei brosesau grant yn erbyn egwyddorion Lean i ganfod unrhyw feysydd eraill sydd angen eu gwella.

## Mae CNC wedi mabwysiadu ymagwedd ragweithiol i ddelio â newidiadau deddfwriaethol a'r posibilrwydd o gyfrifoldebau statudol newydd

2.26 Mae'n ymddangos bod CNC yn cynllunio'n effeithiol ac yn rhagweithiol ar gyfer ei ddyletswyddau newydd sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac â Bil yr Amgylchedd (Cymru), y rhagwelir a fydd yn dod i rym yng ngwanwyn 2016 (Atodiad 2). Mae gan CNC gynlluniau pendant i baratoi ar gyfer ac i weithredu'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth, gan gynnwys ystod o brosiectau. Mae CNC wedi gwneud cynnydd da wrth fireinio ei amcanion busnes cyffredinol i ymgorffori elfennau allweddol y ddeddfwriaeth.

2.27 Thema gyffredinol ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) yw rheoli adnoddau naturiol. Un is-raglen ym mhortffolio trawsnewid CNC yw ymwreiddio rheoli adnoddau naturiol ac mae bwrdd y rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliad i ymwreiddio'r egwyddorion ym mhob un o'r cyfarwyddiaethau. Mae CNC hefyd wrthi'n dadansoddi pob gweithgarwch busnes o safbwynt yr adnoddau a ddefnyddir yn erbyn y canlyniadau a gyflawnir i ddeall yn well sut y mae adnoddau'n cael eu defnyddio a'r potensial i'w defnyddio'n wahanol, yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd.

2.28 Mae CNC yn ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru a grwpiau allanol ynglŷn â'r ddeddfwriaeth a'r gweithgarwch cysylltiedig. Mae rheolwr rheoli adnoddau naturiol CNC yn cael cyfarfodydd pob pythefnos ag arweinwyr polisi perthnasol Llywodraeth Cymru i drafod eu rhaglenni gwaith, ac i roi a chael arweiniad. Mae CNC hefyd yn aelod o fwrdd rhaglen rheoli adnoddau naturiol a bwrdd cyfeirio Llywodraeth Cymru. Mae CNC wedi ymgysylltu'n eang â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i baratoi ar gyfer cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); a bydd Cadeirydd CNC, neu aelod anweithredol a ddewisir gan y Cadeirydd, yn eistedd ar Banel Cynghori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae CNC mewn cysylltiad â grwpiau perthnasol fel y grŵp Cyswllt Amgylchedd Cymru, ac mae'n datblygu ei weithgarwch ymgysylltu ag awdurdodau lleol i ymuno â Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus cysgodol lle maent yn bodoli.

2.29 Mae cofrestrau risg yn gysylltiedig â datblygu'r sefydliad o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Bil yr Amgylchedd (Cymru), ac mae fframwaith perfformiad 2015-16 yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) yn achos y ddwy ddeddfwriaeth. Dangosodd yr adrodd ar gynnydd am y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2015 fod:

- CNC o fewn 10 y cant o'r targed i baratoi i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan iddo gwblhau Siarter Prosiect, sefydlu grŵp prosiect yn gysylltiedig â Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a chynnal gweithdai gyda Byrddau Gwasanaethau Lleol; ond mae ar ei hôl hi o ran deall y data a'r dystiolaeth sydd ar gael i lunio'r asesiadau lles lleol cyntaf erbyn mis Mai 2017;
- roedd dau DPA a oedd yn ymwneud â rheoli adnoddau yn cyrraedd y targed; ac
- roedd CNC ar y trywydd iawn i gyflawni'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol erbyn mis Medi 2016, fel yr amlinellir ym Mil yr Amgylchedd (Cymru).

2.30 Mae CNC yn sylweddoli efallai na fydd arian ychwanegol ar gael i gyflawni holl ddyletswyddau statudol y dyfodol ond mae'n gweithio i ddatblygu'r dull rheoli adnoddau naturiol ac mae'n hyderus y bydd hyn yn arwain at arbedion tymor hir. O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae staff gweithredol ar hyn o bryd mewn cysylltiad â 14 o Fyrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus, a disgwylir y bydd y nifer yn cynyddu i 22 o Fyrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus o Ebrill 2016 ymlaen. Mae CNC yn ystyried yr ymgysylltu hwn fel rhan o'i fusnes craidd yn hytrach na phwysau ychwanegol ar gostau. Wrth baratoi ar gyfer dyletswyddau disgwyliedig Bil yr Amgylchedd (Cymru), mae Cronfa Natur Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £1 miliwn i CNC yn 2014-15 ar gyfer treialon rheoli adnoddau naturiol a sefydlu prosiectau rheoli adnoddau naturiol. Ym mis Mehefin 2015, dywedodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol wrth y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y bydd costau trosiannol i CNC wrth ddatblygu'r dull rheoli adnoddau naturiol yn unol â Bil yr Amgylchedd (Cymru), a all gael eu cynnwys mewn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ond bydd hyn yn arwain at arbedion yn y dyfodol.

2.31 Heblaw am y deddfwriaethau hyn, mae CNC wedi delio â throsglwyddo swyddogaethau, asedau a staff y tri Bwrdd Draenio Mewnol yng Nghymru i CNC ar 1 Ebrill 2015, gan ddod â 19 o staff a £1.4 miliwn o incwm[25]. Crybwyllodd Llywodraeth Cymru y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau yn yr ymgynghoriad cyntaf ar gyfer creu CNC yn 2012. Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y penderfyniad i drosglwyddo'r swyddogaethau, yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Fwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg ym mis Hydref 2013. Cyflwynodd CNC Raglen Pontio Byrddau Draenio Mewnol gyda nifer o ffrydiau gwaith. Roedd y gwaith pontio'n cynnwys: diwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol ar y tri Bwrdd; integreiddio systemau ariannol; trafodaethau ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU ynglŷn â thir yn Lloegr sy'n dod o fewn y tri Bwrdd; ac adrodd rheolaidd i'r Bwrdd, a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Nododd y diweddariad yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Mawrth 2015 fod adborth rhanddeiliaid ar y ffordd yr oedd y pontio'n cael ei reoli'n bositif iawn.

2.32 Ym mis Mehefin 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru rôl ar gyfer CNC pan fydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei datganoli, o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu'r dreth ac yn ymgymryd â swyddogaethau rheoli, ond bydd yn dirprwyo'r swyddogaethau cydymffurfio a gorfodi i CNC.

25 Mae CNC yn cael incwm yn barhaus, a hynny'n bennaf drwy gyfraddau draenio a gesglir gan awdurdodau lleol drwy'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig; neu gyfraddau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i CNC gan berchnogion tir amaethyddol.

2.33 O ystyried y cynnydd yng nghyfrifoldebau CNC a chyrff cyhoeddus eraill, mae diffyg dealltwriaeth ar ran y cyhoedd a rhanddeiliaid yn bosibl o ran union natur rôl CNC a maint y cyfraniad y gellid disgwyl i CNC ei wneud tuag at dargedau amgylcheddol. Mae gwaith CNC yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhannol ddibynnol ar aelodau eraill Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol. Mae gan rai o'r canlyniadau eraill sy'n ddymunol i CNC atebolrwydd ar y cyd ledled y DU, Ewrop ac yn fyd-eang, ac mae CNC yn dibynnu ar ymdrech fawr gan amrywiaeth o bartneriaid er mwyn eu cyflawni, gan gynnwys cyrff cyhoeddus eraill, cwmnïau preifat ac unigolion. Er enghraifft, mae gan CNC DPA sy'n ymwneud â chamau penodol i helpu i atal colledion mewn bioamrywiaeth erbyn 2020, ond ni fyddai gweithredu ar ran CNC yn unig yn gwarantu cydymffurfiaeth â thargedau bioamrywiaeth Ewrop ar gyfer 2020.

## Mae CNC yn cydnabod bod rhai risgiau a heriau mewnol ac allanol sylweddol y bydd angen iddo roi sylw iddynt er mwyn cynnal momentwm y cynnydd tuag at drawsnewid, tra'n parhau i gyflawni arbedion


### Mae CNC yn debygol o wynebu mwy o ansicrwydd ariannol ac mae'n modelu rhagdybiaethau ynghylch cyllidebau'r dyfodol a phwysau ar gostau i ddatblygu cynlluniau ariannol ar gyfer y tymor canolig

2.34 Mae CNC yn cael incwm ar ffurf:

- cymorth grant gan Lywodraeth Cymru;
- ffioedd a thaliadau fel taliadau echdynnu dŵr i gymryd dŵr o afonydd a dŵr daear; trwyddedau pysgota; a thaliadau gwastraff peryglus;
- incwm masnachol ac arall fel gwerthu pren ac ynni adnewyddadwy; a
- chyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall.

2.35 Mae Ffigur 13 yn dangos incwm a nodwyd yng nghyfrifon blynyddol 2013-14 a 2014-15 a'r incwm diweddaraf wedi'i gyllidebu ar gyfer 2015-16 a roddwyd i'r Bwrdd ym mis Hydref 2015. Mae cyfanswm yr incwm wedi'i gyllidebu ar gyfer 2015-16 yn £187 miliwn; £6 miliwn yn is (tri y cant) nag incwm gwirioneddol 2014-15 a £21 miliwn (10 y cant) yn is nag incwm gwirioneddol 2013-14. Er bod yr incwm wedi gostwng ac, yn benodol mae cymorth grant wedi gostwng yn sylweddol, mae incwm un-tro a roddwyd yn 2013-14 ac yn 2014-15 ar gyfer pethau fel clefydau coed (paragraff 1.16) a chostau pontio yn effeithio ar broffil incwm cymorth grant. Gostyngodd nawdd cymorth grant £3.2 miliwn yn 2015-16).

Ffigur 13 – Incwm CNC rhwng 2013-14 a 2015-16 mewn arian parod




Nodyn:

1 Mae incwm un-tro a roddwyd yn 2013-14 ac yn 2014-15 ar gyfer pethau fel clefydau coed (paragraff 1.16) a chostau pontio yn effeithio ar broffil incwm cymorth grant.

2 Mae incwm sydd wedi'i ddwyn ymlaen yn golygu incwm o nifer o ffynonellau, a dderbyniwyd yn 2014-15, ond sydd wedi'i glustnodi'n benodol ar gyfer prosiectau yn 2015-16.

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

2.36 Mae CNC hefyd yn gallu dwyn incwm ymlaen naill ai ar gyfer prosiectau penodol sydd wedi'u cynllunio neu oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid grant ychwanegol yn hwyr yn y flwyddyn ariannol (paragraff 1.30). Yn 2015-16, dygodd CNC £21.2 miliwn o gyllid ymlaen.

2.37 Mae CNC yn adrodd ei gostau i'r Bwrdd yn seiliedig ar gostau staff, costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff, prosiectau refeniw fel rhai sy'n gysylltiedig â thrawsnewid, a phrosiectau cyfalaf fel y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd Arfordirol. Mae Ffigur 14 yn dangos dadansoddiad o'r gwariant cyllidebol fesul categori ar gyfer 2015-16 fel yr oedd ym mis Ebrill 2015. Dangosodd y dadansoddiad diweddaraf yng nghyfarfod o'r Bwrdd ym mis Ionawr 2016 fod CNC o dan y gyllideb ar wariant hyd fis Rhagfyr 2015, o ganlyniad i danwariant a gynlluniwyd ar brosiectau cyfalaf. Mae CNC yn rhagweld y bydd yn cynnal y tanwariant hwn ac yn dwyn incwm ymlaen i 2016-17 i helpu i wneud iawn am y gostyngiadau a ddisgwylir mewn incwm.

Ffigur 14 – Gwariant wedi'i gyllidebu fesul categori ar gyfer 2015-16, fel yr oedd ym mis Ebrill 2015

| Math o wariant | £ miliwn |
|---|---|
| Costau staff | 80.0 |
| Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff | 65.9 |
| Prosiectau cyfalaf | 28.2 |
| Prosiectau refeniw | 12.9 |
| Cyfanswm gwariant am 2015-16 | 187.0 |

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru


2.38 Mae gostyngiadau pellach yn y gyllideb, toriadau yn ystod y flwyddyn mewn cyllid craidd a phwysau ariannol eraill yn cynyddu'r perygl o dorri gwasanaethau ac na fydd CNC yn gallu cyflawni ei ganlyniadau. Mae CNC yn modelu ystod o senarios cyllidebol i gynllunio ar gyfer amrywiadau mewn cyllidebau. Cyn mis Medi 2015, disgwyliad tymor hir CNC oedd gwneud arbedion o 25 y cant erbyn 2020, yn seiliedig ar ostyngiad o bump y cant mewn cymorth grant o flwyddyn i flwyddyn yn nhermau arian. Roedd wedi gweithredu cyfres o fesurau effeithlonrwydd i reoli effaith y toriad presennol o £3.2 miliwn mewn cymorth grant, ac roedd yn chwilio am strategaethau pellach i gyflawni'r toriad o 25 y cant. Fodd bynnag, ym mis Medi 2015 gofynnodd Llywodraeth Cymru i CNC ystyried senarios ar gyfer mwy o ostyngiad mewn cymorth grant bob blwyddyn am y tair blynedd nesaf, ac awgrymodd bryd hynny ei bod yn disgwyl y byddai'n gorfod gwneud gostyngiad o 10 y cant mewn cymorth grant ar gyfer 2016-17.

2.39 Ym mis Rhagfyr 2015, ar ôl cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft 2016-17, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ostyngiad ariannol o wyth y cant i CNC, ar sail gyfatebol, yn y cyllid cymorth grant refeniw ar gyfer rheoli risg sydd ddim yn gysylltiedig â llifogydd yn 2016-17, a gostyngiad o bump y cant mewn cymorth grant ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw cymorth grant cyfalaf ar y lefelau presennol. Ni fydd rhagor o wybodaeth am gyllidebau blynyddoedd yn y dyfodol ar gael nes bod y Rhaglen Lywodraethu newydd yn cael ei chyhoeddi, ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016.

2.40 Mae CNC yn dal yn gweithio ar y rhagdybiaeth y bydd y gyllideb wedi lleihau rhwng 25 a 40 y cant erbyn 2020. Dywedodd CNC wrthym ei fod yn teimlo bod dyraniadau cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru yn cyfyngu arno ond ei fod yn rheoli'r effaith drwy ei waith cynllunio ariannol a modelu. Fodd bynnag, mae perygl y bydd toriadau i'r gyllideb yn golygu y bydd angen blaenoriaethu pellach yn ei waith ac y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd, yn enwedig o gofio'r ansicrwydd ynghylch unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau statudol newydd (paragraff 2.30). Mae CNC o'r farn y bydd angen gwneud newidiadau sylfaenol i bwrpas a strwythur CNC yn sgil lefel ddisgwyliedig y toriadau yn y gyllideb.

2.41 Fel rhan o'i fodelu ariannol, mae CNC wedi amcangyfrif y pwysau ychwanegol ar gostau mae'n eu hwynebu nad oedd wedi'u cynnwys yng nghostau'r achos busnes gwreiddiol. Ar gyfer 2015-16, mae CNC yn amcangyfrif costau ychwanegol a phwysau ar gyllid o £26 miliwn (Ffigur 15). Mae CNC yn ymdrechu i liniaru'r costau hwn drwy gyflawni buddiannau arian parod wedi'u gwireddu o'r achos busnes; lleihau niferoedd staff; ailedrych ar flaenoriaethau gweithgarwch; a hybu effeithlonrwydd.

Ffigur 15 – Pwysau ychwanegol ar gostau CNC yn 2015-16 o'i gymharu ag amcangyfrifon yr achos busnes





Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

## Mae CNC wedi lleihau nifer ei staff ar draws swyddogaethau'r busnes yn bennaf drwy ddefnyddio cynlluniau diswyddo gwirfoddol; fodd bynnag mae wedi canfod bylchau mewn sgiliau mewn rhai meysydd ac mae'n debygol o wynebu rhagor o bwysau o ran galluogrwydd

2.42 Mae CNC yn debygol o wynebu rhagor o bwysau ar adnoddau, o gofio'r gostyngiad yn nifer y staff ers ei greu, y rhaglen trawsnewid gymhleth sydd ar waith, a chyfrifoldebau statudol ychwanegol (Paragraff 2.25 ac Atodiad 2). Mae CNC wedi gostwng nifer ei staff o 2,186 (2,082 cyfwerth ag amser llawn) ar y diwrnod breinio i 2,017 (1,919 cyfwerth ag amser llawn) ym mis Hydref 2015. Mae CNC wedi llwyddo i sicrhau'r gostyngiad hwn yn bennaf drwy gyflwyno dau gynllun diswyddiadau gwirfoddol. Roedd CNC wedi ariannu'r cynlluniau drwy ddefnyddio £6 miliwn o gyllid ad-daladwy Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru. Mae CNC yn ad-dalu £2.5 miliwn yn 2015-16, ac mae'n disgwyl ad-dalu £1.8 miliwn yn 2016-17 ac £1.8 miliwn yn 2017-18.

2.43 Mae CNC wedi asesu'r holl geisiadau i adael yn erbyn meini prawf i benderfynu a fyddai sgiliau'n cael eu colli, a dangosodd adolygiad gwersi a ddysgwyd o'r cynllun cyntaf bod y cynllun 'wedi cael effaith fach iawn ar y busnes a'i fod o'r farn bod y staff cywir wedi cael eu caniatáu i adael'. Rhwng y ddau gynllun, cafodd CNC 444 o geisiadau, a chymeradwywyd 183 ohonynt. Roedd y ceisiadau a'r ceisiadau a gymeradwywyd wedi'u dosbarthu ar draws meysydd busnes CNC, a gwrthodwyd rhai ceisiadau ym mhob cyfarwyddiaeth ac eithrio Swyddfa'r Prif Weithredwr (Ffigur 16). Roedd tri o'r ceisiadau a gymeradwywyd yn swyddi yn y tîm arweinyddiaeth.

Ffigur 16 – Nifer y ceisiadau a gafwyd i'r cynlluniau diswyddiadau gwirfoddol ac a gymeradwywyd, yn ôl cyfarwyddiaeth




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

2.44 Mae CNC yn cynnal ymarferiad cynllunio'r gweithlu i asesu'r gweithlu sydd ar ôl yn erbyn gofynion y dyfodol (paragraff 2.8). Fodd bynnag, amlygodd gweithdy cynllunio'r gweithlu a gynhaliwyd yn ddiweddar amryw o feysydd gyda bylchau mewn sgiliau, a phwysau cyllidebol a allai arwain at ragor o doriadau. Un gyfarwyddiaeth allweddol sy'n debygol o wynebu pwysau mwy sylweddol o ran galluogrwydd yw Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl, o gofio'r gweithgarwch sylweddol sydd ar waith i gwblhau prosiectau pwysig o dan faes 'Datblygu ein Pob a'n Timau' y rhaglen trawsnewid (paragraff 2.7). Mewn rhai meysydd, mae CNC yn recriwtio staff ychwanegol; fodd bynnag, mae swyddi arbenigol, fel rheoleiddio niwclear, wedi bod yn anodd eu llenwi. Mewn rhai achosion, mae'r swyddi wedi bod yn wag am dros bedwar mis ond maent wedi'u llenwi erbyn hyn.

2.45 O gofio'r pwysau ar alluogrwydd, mae perygl pellach y gallai adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer materion fel gwerthuso swyddi dynnu sylw oddi ar feysydd trawsnewid eraill ac y gallai hynny achosi i bethau lithro'n ôl. Gallai hyn arwain at oedi wrth geisio cyflawni buddiannau a rhoi canfyddiad negyddol o'r broses drawsnewid i staff, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol eraill.

## Mae Bwrdd CNC yn profi newidiadau o ran ei aelodaeth, yr amser sydd ar gael i bob aelod, a thymhorau penodi byrrach

2.46 Daeth tymor Bwrdd gwreiddiol CNC i ben ym mis Hydref 2015. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru pum aelod o'r Bwrdd i barhau am ail dymor ac roedd am benodi Cadeirydd newydd a pum aelod newydd. Yn y diwedd penderfynodd Llywodraeth Cymru ymestyn tymor y Cadeirydd presennol o fis Awst 2015 tan 30 Tachwedd 2015, ac ar 3 Tachwedd 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol fod Cadeirydd a phum aelod newydd wedi cael eu penodi. O ystyried cryfder y Bwrdd blaenorol (paragraff 1.25), gallai'r newidiadau yn yr aelodau arwain at ddiffyg dilyniant a galluogrwydd yn ogystal ag arafu'r cynnydd a wnaethpwyd yn barod. Mae CNC wedi datblygu proses gynefino gliriach a deunyddiau ar gyfer tymor nesaf y Bwrdd a chynigiwyd system cyfeillio i baru aelodau hen a newydd y Bwrdd i geisio lleihau'r risg hon.

2.47 O fis Tachwedd 2015 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn cwtogi ar nifer y dyddiau ar gyfer pob aelod o'r Bwrdd o 60 i 36, gyda nifer yr aelodau'n aros yr un fath â'r Bwrdd gwreiddiol a oedd yn weithredol o fis Ebrill 2013, sef 10 aelod[26] ynghyd â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Mae pob aelod o'r Bwrdd yn cael ei dalu yn ôl cyfradd ddyddiol ac felly bydd y newidiadau'n golygu arbediad ariannol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y gostyngiad mewn amser yn adlewyrchu'r symud o newid i weddnewid, yn ogystal ag effeithiolrwydd y tîm gweithredol. Fodd bynnag, mae aelodau'r Bwrdd sy'n parhau yn y swydd wedi mynegi pryderon y bydd y cwtogi ar amser pob aelod yn cael effaith negyddol ar y cymorth y byddant yn gallu ei gynnig.

26 Rhwng mis Ionawr 2014 a mis Hydref 2014, roedd gan Fwrdd CNC naw aelod; a rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Hydref 2015, roedd ganddo wyth aelod.

2.48 Nodwn fod tymor aelodau'r Bwrdd ar gyfer y tymor newydd, ac eithrio'r Cadeirydd, yn ddwy flynedd o 1 Tachwedd 2015 hyd 31 Hydref 2017. Mae hyn yn fyrrach na thymor y Bwrdd gwreiddiol o dair blynedd ac yn fyrrach na thymor cyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft, roedd penodiadau diweddar ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn hysbysebu tymor o bedair blynedd, ac mae gan Chwaraeon Cymru ar hyn o bryd dymor o dair blynedd. Mae tymor Cadeirydd newydd CNC yn dair blynedd. Gallai tymor byrrach olygu bod dilyniant yn cael ei fygwth a bod profiad yn cael ei golli ar ôl cyfnod byr; a bod gormod o bwyslais ar y tymor byr. Fodd bynnag, rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru eisiau'r cyfle i allu ystyried dynameg a chymysgedd sgiliau'r Bwrdd ar ôl dwy flynedd, a bydd yn ymdrechu i ailbenodi aelodau os bydd ei hasesiad yn dangos bod y Bwrdd yn gweithio'n dda.

# Atodiadau

Atodiad 1 - Cwmpas a dulliau'r Archwiliad

Atodiad 2 - Cyfrifoldebau dangosol CNC a'r amserlen yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru), 2016 hyd 2020



# Atodiad 1 - Cwmpas a dulliau'r Archwiliad

## Cwmpas ein gwaith

Cwmpas cyffredinol ein gwaith oedd canfod a oes gan CNC drefniadau llywodraethu ar waith sy'n helpu i gyflawni ei brif flaenoriaethau a chanlyniadau, neu a yw'n datblygu trefniadau o'r fath. Roedd ein harchwiliad yn edrych ar gynnydd yn erbyn y perfformiad a fwriadwyd; gweledigaeth a chyfeiriad strategol; trefniadau atebolrwydd; rheolaeth dros adnoddau; trefniadau nawdd gyda Llywodraeth Cymru; a'r ffordd y mae CNC wedi bod yn paratoi ar gyfer goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Bil yr Amgylchedd (Cymru).

Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar agweddau gweinyddol CNC ac i ba raddau y mae'r rhain yn ategu llywodraethu da ac effeithiolrwydd gweithredol, Nid oedd yr astudiaeth yn adolygu gweithredoedd neu benderfyniadau rheoleiddiol CNC yn fanwl, ac nid oedd ychwaith yn edrych ar y rhesymau wrth wraidd sefydlu CNC.

Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau ar gyfer cynnal adolygiadau cyfnod prawf o gyrff a noddir sydd newydd eu sefydlu ar ôl dwy flynedd o weithredu. Ar ôl cynnwys yr astudiaeth hon o waith CNC yn ei raglen waith, cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth Lywodraeth Cymru ei fod yn disgwyl y byddai'r adolygiad hwn yn cynnwys yr elfennau hynny a fyddai fel arall mewn adolygiad prawf ar wahân, gan ddefnyddio hefyd ein gwaith o archwilio datganiadau ariannol blynyddol CNC. Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2015 i roi crynodeb o'r canfyddiadau allweddol a oedd yn berthnasol i gwmpas gofynion adolygiad prawf Llywodraeth Cymru.

## Y dulliau archwilio

Roedd gwaith maes ein hastudiaeth yn cynnwys:

- cyfweliadau ag aelodau Bwrdd, swyddogion gweithredol a staff CNC;
- adolygu dogfennau a gafwyd gan CNC a Llywodraeth Cymru; a
- phresenoldeb mewn ac arsylwi ar gyfarfod o Fwrdd CNC.

Defnyddiwyd gennym ddulliau archwilio sefydledig i edrych ar lywodraethu, gan gynnwys ein hasesiadau corfforaethol o awdurdodau lleol yng Nghymru a'n hasesiad 'strwythuredig' blynyddol o gyrff y GIG.

Er mwyn osgoi dyblygu, pan oedd yn bosibl, defnyddiwyd canlyniadau gwaith diweddar, gan gynnwys gwaith gan CNC a'r Cynulliad Cenedlaethol, yn benodol:

- arolwg bodlonrwydd staff a gynhaliwyd gan CNC (Chwefror 2015);
- adolygiad CNC ei hun o'i ddwy flynedd gyntaf o weithredu, **Creating the Foundation for Delivery – Transition Report** (mis Tachwedd 2015);

- craffu ar waith CNC gan Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol rhwng Mai 2014 a Gorffennaf 2015, gan gynnwys ymatebion i arolwg rhanddeiliaid, sesiynau tystiolaeth, llythyr terfynol y Pwyllgor ac ymateb CNC;
- gwaith archwilio mewnol a wnaethpwyd gan dîm archwilio mewnol CNC ar amryw o feysydd; a chan archwilwyr mewnol Llywodraeth Cymru ar y trefniadau nawdd â CNC; ac
- adolygu CNC yn erbyn yr Egwyddorion Rheoleiddio Da gan y Swyddfa Rheoleiddio Gwell.

Bu tîm yr astudiaeth yn cysylltu â chydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cydlynu cysylltiadau â gwaith archwilio ariannol a pherfformiad arall, gan gynnwys:

- gwaith archwilio ariannol a wnaethpwyd fel rhan o archwiliad allanol o'r cyfrifon terfynol, gan gynnwys gwaith dilynol yn ymwneud â risgiau o ran integreiddio systemau ariannol, rheolaethau ariannol y datganiadau ariannol, ymateb i bwysau ariannol, cyflawni arbedion, a'r datganiad llywodraethu blynyddol;
- astudiaethau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol ar lifogydd ac erydu arfordirol (ar waith); a **Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru** (Chwefror 2015);
- cymorth Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru i raglen datblygiad Aelodau Bwrdd CNC;
- cysylltiadau a sefydlwyd â CNC gan Reolwr Datblygu Cynaliadwy Swyddfa Archwilio Cymru o ran gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pharatoi ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Cymru) arfaethedig, y disgwylir a fydd yn cael Cydsyniad Brenhinol yng Ngwanwyn 2016; ac
- ymatebion gan Fwrdd CNC a'r uwch dîm arweinyddiaeth i adroddiad Mehefin 2015 ar holiadur arolwg **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus**.

# Atodiad 2 - Cyfrifoldebau dangosol CNC a’r amserlen yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru), 2016 hyd 2020

## Cyfrifoldebau i CNC o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn datgan ei bod yn ofynnol bod CNC yn eistedd ar Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal pob awdurdod lleol. Nod Byrddau’r Gwasanaethau Cyhoeddus, sy’n weithredol er Ebrill 2016, yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy weithio i gyflawni’r amcanion llesiant. Rhaid i bob un o Fyrddau’r Gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi ‘Cynllun Llesiant Lleol’ sy’n amlinellu amcanion ac adolygu’r cynllun yn flynyddol i ddangos cynnydd.

Rhaid i CNC hefyd gyflawni gofynion cyffredinol y Ddeddf sy’n gymwys i gyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys pennu ac adrodd ar ei amcanion ei hun i gyflawni’r saith amcan llesiant; a gweithredu egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei holl weithgareddau[27].

## Cyfrifoldebau CNC a ddisgwylir o dan Fil yr Amgylchedd (Cymru)

Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru), y rhagwelir a fydd yn dod i rym yng ngwanwyn 2016, yn gosod dyletswyddau penodol ar CNC i gynhyrchu:

- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol bob pum mlynedd sy’n rhoi asesiad o adnoddau naturiol ac i ba raddau maent yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy; a
- datganiadau ardal i ganfod lefel leol y blaenoriaethau, y risgiau a’r cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a pha gamau i’w cymryd[28].

27 **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr Hanfodion**, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2015.
28 **Golwg Gyffredinol ar Fil yr Amgylchedd (Cymru)**, Llywodraeth Cymru, Mai 2015.

## Amserlen y prif gyfrifoldebau

- 🔴 Cyfrifoldebau Bil yr Amgylchedd (Cymru)
- 🟢 Cyfrifoldebau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

### 2016

**● Erbyn Ebrill 2016** (Deddf Llesiant)

Aelod o 22 o Fyrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus

**● Erbyn Medi 2016** (Bil yr Amgylchedd)

Cyhoeddi'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf

### 2017

**Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2016-17 ●** (Deddf Llesiant)

Cyhoeddi'r adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf yn erbyn yr amcanion llesiant

**Erbyn Mai 2017 ●** (Deddf Llesiant)

Cyhoeddi asesiad lleol o lesiant

**Haf/hydref 2017[1] ●** (Bil yr Amgylchedd)

Cynhyrchu datganiadau ardal yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol ar lefel ardal

### 2018

**● Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2017-18** (Deddf Llesiant)

Cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol yn erbyn amcanion llesiant

**● Erbyn Mai 2018** (Deddf Llesiant)

Cyfrannu at gyhoeddiadau Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus o gynlluniau a datganiadau llesiant

### 2019

**Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2018-19 ●** (Deddf Llesiant)

Cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol yn erbyn amcanion llesiant

**Erbyn Gorffennaf 2019 ●** (Deddf Llesiant)

Cyfrannu at gyhoeddiadau Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus o gynlluniau llesiant

**Erbyn diwedd 2019 ●** (Bil yr Amgylchedd)

Cyhoeddi adroddiad cyntaf ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd bioamrywiaeth

### 2020

**● Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2019-20** (Deddf Llesiant)

Cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol yn erbyn amcanion llesiant

**● Erbyn Gorffennaf 2020** (Deddf Llesiant)

Cyfrannu at gyhoeddiadau Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus o gynlluniau llesiant

**● Erbyn diwedd 2020** (Bil yr Amgylchedd)

Cyhoeddi ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

Nodyn:

1 Nid yw'r union amserlen ar gyfer datganiadau ardal wedi'i chadarnhau eto.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru